



# **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**

**Canllaw arolygu ar gyfer  
gwasanaethau gwarchod plant,  
gofal dydd a chwarae mynediad  
agored**

## **Cynnwys**

<b>Cyflwyniad</b>	<b>tudalen 3</b>
<b>Ein hegwyddorion</b>	<b>tudalen 4</b>
<b>Math o arolygiad ac amllder</b>	<b>tudalen 6</b>
<b>Fframwaith arolygu</b>	<b>tudalen 8</b>
<b>Cynllunio arolygiadau</b>	<b>tudalen 11</b>
<b>Cynnal arolygiadau</b>	<b>tudalen 12</b>
<b>Ein dull ar gyfer graddau</b>	<b>tudalen 14</b>
<b>Atodiadau</b>	<b>tudalen 17</b>

## **Cyflwyniad**

Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio sut mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arolygu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae'r rhain yn cynnwys gwarchodwyr plant, gofal plant a gwasanaethau chwarae mynediad agored ar gyfer plant hyd at 12 mlwydd oed.

Mae'r canllawiau'n amlinellu ein fframwaith arolygu newydd, gan gynnwys:

- y mathau o arolygiadau a'u hamlder;
- hyd ymweliadau safle;
- yr hyn sy'n digwydd yn ystod ac ar ôl arolygiad;
- y broses gynyddol o gyflwyno graddau; a
- chynnwys ein hadroddiadau arolygu.

### **Ein rôl ni**

Rydym yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal plant er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn hyrwyddo llesiant y plant. Trwy ein harolygiadau, rydym yn:

- rheoleiddio ac arolygu pob gwasanaeth gofal plant mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, ac adrodd am ein canfyddiadau
- darparu sicrwydd annibynnol ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, ynglŷn â diogelwch, ansawdd ac argaeledd gwasanaethau gofal plant yng Nghymru
- cynorthwyo yn y gwaith o ddiogelu plant a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn, a'u bod yn derbyn gofal gan bobl sy'n addas i wneud hynny
- gwella canlyniadau gofal a llesiant ar gyfer plant
- sicrhau bod darparwyr cofrestredig yn bodloni, ac yn parhau i fodloni, gofynion eu cofrestriad
- darparu gwybodaeth ar gyfer Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â gofal plant.

### **Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu**

Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, wrth gadw ein hannibyniaeth o Lywodraeth Cymru.

Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwarchodwyr plant, gofal plant a darpariaeth chwarae mynediad agored ar gyfer plant hyd at 12 mlwydd oed o dan y canlynol:

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Gorchymyn Diwygio 2010)
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, ac wedi eu diwygio yn 2016
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwysu) (Cymru) 2010

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (Mawrth 2016)

Mae ein pwerau ynglŷn ag arolygu'n cael eu hamlinellu yn Adrannau 41 a 42 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Gweler Atodiad D ac <http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/part/2/crossheading/inspection>

Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar [wefan AGGCC](#).

Y disgwyl yw ei bod yn rhaid i bob gwasanaeth gydymffurfio â'r rheoliadau, a bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae nifer o amgylchiadau lle bydd unigolyn sy'n darparu gofal ar gyfer plant hyd at 12 mlwydd oed yn cael ei eithrio o'r rheoliadau. Mae'r rhain yn cael eu hamlinellu yng Ngorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

## Ein hegwyddorion

Mae ein gwaith yn seiliedig ar set o egwyddorion:

- **Canolbwyntio ar bobl** – rydym yn rhoi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a reoleiddir wrth wraidd ein gwaith ac yn ystyried effaith gwasanaethau ar wella llesiant plant.
- **Cefnogi gwelliant** – rydym yn gwneud dyfarniadau am wasanaethau. Rydym yn cydnabod arfer da, yn nodi arfer gwael, ac yn hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau gofal a chwarae.
- **Tryloywder** - rydym yn ymdrechu i ysgrifennu adroddiadau clir, er mwyn i bobl ddeall y sail ar gyfer gwneud y dyfarniadau.
- **Tegwch** – rydym yn seilio ein dyfarniadau ar y dystiolaeth a gesglir fel rhan o arolygiad, ac yn rhoi'r cyfle i ddarparwyr gwestiynu'r cywirdeb ffeithiol a'r canfyddiadau.
- **Bod yn gadarn** – rydym yn cymryd camau cadarn ac amserol pan fydd gwasanaethau'n darparu gofal gwael, neu'n rhoi plant mewn perygl.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae cynnal hawliau plant wrth wraidd ein gwaith. Rydym yn ystyried amcanion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a 'Chynllun Hawliau Plant' Llywodraeth Cymru, sy'n cael eu hymgorffori ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010.

Mae erthyglau perthnasol CCUHP wedi eu hymgorffori yn ein fframwaith arolygu, a bydd arolygwyr yn ystyried sut mae darparwyr yn hyrwyddo hawliau plant, er mwyn sicrhau bod gan blant lais a'u bod yn cael eu cadw'n ddiogel, eu meithrin, eu trin â pharch, a'u cynorthwyo i ddatblygu eu llawn botensial.



## **Ymddygiad ar gyfer arolygiadau**

Mae o'r pwys mwyaf bod arolygiadau'n cael eu cynnal er budd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, er mwyn hyrwyddo eu llesiant ac i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn. Mae'n hanfodol bod arolygiadau'n cael eu cynnal ar sail cwrteisi a pharch cilyddol rhwng arolygwyr a'r rhai sy'n gweithredu'r gwasanaethau.

## **Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr**

Mae'n rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau yng Nghod Ymddygiad y Gwasanaeth Sifil. Pan fyddant yn cynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr yn:

- gwneud eu gwaith gydag unplygrwydd, cwrteisi a sensitifrwydd;
- gwerthuso gwaith y gwasanaeth mewn modd gwrthrychol;
- adrodd mewn modd gonest, teg a diduedd;
- cyfathrebu mewn ffordd glir ac agored;
- gweithredu er budd gorau'r plant;
- parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth a dderbynnir wrth iddynt wneud eu gwaith; a
- dangos dogfennaeth adnabod sy'n cadarnhau eu hawdurdod i ddod i mewn ac i arolygu.

## **Disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau**

Rydym yn disgwyl i'r rhai sy'n gweithredu gwasanaethau:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol;
- defnyddio eu codau ymddygiad eu hunain wrth iddynt ymdrin ag arolygwyr;
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn ffordd agored a gonest;
- galluogi arolygwyr i werthuso'r ddarpariaeth mewn modd gwrthrychol yn erbyn y fframwaith arolygu;
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am eu darpariaeth;
- cynnal deialog bwrpasol â'r arolygydd neu'r tîm arolygu;
- cydnabod ei bod yn rhaid i arolygwyr arsylwi ar arferion a siarad â staff a phobl eraill heb y person â gofal yn bresennol;
- tynnu sylw'r arolygwyr neu AGGCC at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas;
- gweithio gydag arolygwyr er mwyn lleihau aflonyddwch a straen yn ystod yr arolygiad; a
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr pan fyddant ar y safle.

## **Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac adolygiad blynyddol o ansawdd gofal**

Bob blwyddyn bydd yn ofynnol i ddarparwyr anfon y canlynol atom:

- Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac
- adolygiad o ansawdd gofal y gwasanaeth.

Mae'r rhain yn ofynnol o dan Reoliadau 16 a 17 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

Mae'r dogfennau hyn yn ein galluogi i asesu sut mae darparwyr yn eu gweld eu hunain o ran ansawdd cyn arolygiad, yn erbyn pedair thema allweddol y fframwaith arolygu. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr fod yn agored ac yn onest wrthym, ac i rannu'r holl wybodaeth briodol. Gofynnir i ddarparwyr gadarnhau bod y wybodaeth y maent yn ei chyflwyno'n gyflawn ac yn gywir.

Mae'n bosibl y bydd methu â chwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth neu'r adolygiad ansawdd gofal ar gyfer y gwasanaeth yn arwain at gamau gorfodi'n cael eu cymryd gennym, a bydd yn effeithio ar ein dyfarniad o arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth (a'r radd ddilynol).

## **Mathau o arolygiad a'u hamlder**

Mae ein harolygiadau'n ganolog i'n model rheoleiddio ni. Maent yn canolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i ddatblygiad a lles plant.

Rydym wedi datblygu dull newydd ar gyfer ein harolygiadau gofal plant a'r amlder rydym yn arolygu gwasanaethau. Mae gennym ddau fath o arolygiad – **llawn ac â phwyslais penodol**.

Mae **arolygiadau llawn** yn arolygiadau rheolaidd, wedi eu trefnu yn ôl ein hamserlen arolygu. Maent yn ystyried pob un o'r pedair thema yn y fframwaith arolygu ac yn ein galluogi i wneud y canlynol:

- rhoi sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau craidd, a bod ganddo systemau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith;
- adolygu cofrestriad y gwasanaeth, gan brofi a yw'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion i barhau i fod yn gofrestredig, ac a yw ei gofrestriad a'i ddatganiad o ddiben, gyda'i gilydd, yn adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu; a
- rhoi'r cyfle i arolygwyr wneud dyfarniadau ynglŷn ag ansawdd y gwasanaeth.

Mae arolygiadau llawn yn cael eu cynnal tua **chwe mis ar ôl i wasanaeth sydd newydd gael ei gofrestru ddechrau gweithredu**. Wedyn rydym yn cynnal arolygiadau llawn:

- unwaith pob dwy flynedd ar gyfer gofal dydd llawn ac
- unwaith pob tair blynedd ar gyfer pob gwasanaeth gofal plant arall – gofal dydd sesiynol, gwarchodwyr plant, chwarae mynediad agored, meithrinfeydd, a gofal y tu allan i'r ysgol.

Fel arfer, cynhelir **arolygiadau â phwyslais penodol** mewn ymateb i bryder, neu er mwyn gwneud gwaith dilynol ynglŷn â meysydd i'w gwella a nodwyd mewn

arolygiadau blaenorol. Mae'n bosibl y bydd yr arolygiadau hyn yn ystyried rhai agweddu ar y gwasanaeth yn unig. Dylai ein harolygwyr fanteisio ar bob cyfle mewn arolygiad â phwyslais penodol i ystyried ac i wneud sylwadau ar les a gofal a datblygiad y plant – er ei bod yn bosibl na fydd hyn yn cael ei wneud yn drwyadl, na chwaith yn cynnwys yr holl ystod oedran/oriau agor/ystafelloedd ac ardaloedd gwahanol ag y byddem yn eu cynnwys mewn arolygiad llawn.

Mae ein holl arolygiadau'n ddirybudd, er ein bod bellach yn ffonio'r gwasanaeth fel arfer yr wythnos cyn ein harolygiad ar gyfer gwarchodwyr plant a gwasanaethau chwarae mynediad agored, i wirio'r oriau agor ac argaeledd y gwarchodwr plant. Mae hyn er mwyn osgoi colli ymweliadau.

Bwriad yr alwad hon yw:

- gwirio pa ddiwrnodau ac oriau mae'r gwasanaeth yn gweithredu a
- gwirio ystod oedran y plant sy'n mynychu yn ystod wythnos yr arolygiad.

Os yw'r arolygydd wedi cymryd camau rhesymol i gysylltu â'r gwasanaeth, ond heb lwyddo i siarad ag unrhyw un, yna bydd arolygiad yn cael ei gynnal heb drafodaeth ymlaen llaw.

Fodd bynnag, atgoffir pob gwasanaeth o'i gyfrifoldeb i'n hysbysu ni am unrhyw newidiadau i'w ddyddiau/oriau gweithredu. **Byddwn yn parhau i arolygu unrhyw wasanaeth ar unrhyw adeg yn ddirybudd, yn enwedig os bydd pryderon wedi cael eu lleisio am wasanaeth.**



## Fframwaith arolygu

Mae ein fframwaith (Diagram 1) yn cynnwys pedair thema, sydd wedi cael eu rhannu yn bedwar maes allweddol:

- lles;
- gofal a datblygiad;
- yr amgylchedd; ac
- arweinyddiaeth a rheolaeth.

Bydd arolygwyr yn gwneud dyfarniad ynglŷn â'r radd ar gyfer pob thema. Ni fyddant yn dyfarnu gradd gyffredinol. Mewn gwasanaethau mwy, byddant yn ystyried yr amrywiaeth o wasanaethau sy'n gweithredu ar wahanol adegau o'r dydd, ac mewn mannau gwahanol yn y lleoliad.

### Diagram 1 (y fframwaith craidd)

	Thema	Maes allweddol
P L A N T	1 Lles	1.1 I ba raddau mae gan y plant lais?
		1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?
		1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?
		1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a dysgu?
		1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu, a dod yn annibynnol?
Y M A R F E R W Y R	2 Gofal a datblygiad	2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?
		2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?
		2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?
A R W E I N W Y R	3 Yr amgylchedd	3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?
		3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?
		3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?
	4 Arweinyddiaeth	4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?
		4.2 Pa mor effeithiol yw'r hunanwerthuso a'r cynllunio ar

	a rheolaeth	gyfer gwella?
		4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?
		4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae Atodiadau A a B yn rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â'r hyn y bydd yr arolygydd yn ei werthuso yn erbyn pob maes, o dan themâu penodol y fframwaith craidd. Maent hefyd yn rhoi datganiadau enghreifftiol ynglŷn â'r hyn a olygir gan "dda".

Atodiad B yw'r fframwaith y bydd arolygwyr yn ei ddefnyddio pan fyddant yn arolygu gwasanaeth chwarae mynediad agored, er mwyn ystyried yr amgylchiadau amrywiol sy'n berthnasol i themâu'r amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau chwarae mynediad agored.

## Diogelu

Rydym yn ceisio sicrhau bod gofal diogel a sicr yn cael ei ddarparu ar gyfer plant trwy reoleiddio ac arolygu effeithiol. Mae diogelu a sicrhau lles plant wrth wraidd ein busnes, a bydd ein harolygwyr bob amser yn ystyried pa mor dda yw gofal y plant, a pha mor dda maent yn cael eu hamddiffyn. Bydd yr arolygwyr bob amser yn ystyried a yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn effeithiol neu beidio, fel rhan o'r themâu arolygu ar gyfer lles, ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr wedi creu diwylliant o wylidwriaeth, lle mae lles plant yn cael ei hyrwyddo, ac mae camau diogelu amserol a phrydlon yn cael eu cymryd lle ei bod yn bosibl bod plant yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed difrifol.

Pan fydd pryderon ynglŷn â diogelu'n codi yn ystod arolygiad, bydd arolygwyr yn cymryd camau i atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol, neu i roi sicrwydd iddynt eu hunain fod yr atgyfeiriadau priodol wedi cael eu gwneud. Gall pryderon penodol gynnwys oedi neu esgeulustod wrth atgyfeirio pryderon am blentyn sy'n dioddef niwed sylweddol, neu sydd mewn perygl o wneud, i'r asiantaethau perthnasol. Nid rôl arolygydd yw archwilio pryder ynglŷn ag amddiffyn plant, neu honiad yn erbyn aelod o staff.

### Bydd arolygwyr bob amser yn ystyried:

- polisiau a gweithdrefnau amddiffyn plant y gwasanaeth;
- amgylchiadau lle mae aelod o staff wedi cael ei atal rhag gweithio ac mae ymchwiliad diogelu'n cael ei gynnal ar y pryd;
- methiant i ddilyn gofynion statudol neu weithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn staff; a
- methiant i ddilyn y ddyletswydd gyfreithiol i atgyfeirio aelod o staff sydd wedi niweidio plentyn, neu pan fydd risg y bydd yn gwneud hynny, i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dylid ystyried y canllawiau statudol canlynol:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Gweithio gyda'n gilydd i Amddiffyn Pobl

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>

Canllawiau dyletswydd i atal ar gyfer Lloegr a Chymru: canllawiau ar gyfer awdurdodau penodol yn Lloegr a Chymru ynglŷn â'r ddyletswydd sydd ar ysgolion a darparwyr eraill yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi'r sylw priodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/445977/3799\\_Revised\\_Prevent\\_Duty\\_Guidance\\_\\_England\\_Wales\\_V2-Interactive.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/445977/3799_Revised_Prevent_Duty_Guidance__England_Wales_V2-Interactive.pdf)

(Dolen Saesneg yn unig)

## Pryderon

Mae pryderon a leisiwyd gan blant, rhieni a phobl eraill sy'n agos atynt ynghyd â staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn ffynonellau gwybodaeth pwysig sy'n ein cynorthwyo i ddeall ansawdd y gofal a ddarperir. Rydym yn ystyried pa mor dda mae darparwyr yn ymdrin â phryderon a chwynion. Byddwn yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth gwahanol i ddeall pa mor dda mae darparwyr yn annog y plant, yn gwrandao arnynt ac yn ymateb iddynt, ac yn dysgu trwy bryderon a chwynion. Mae'n bosibl y bydd ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys polisiau chwythu'r chwiban; dangosyddion megis y cofnod cwynion a chanfyddiadau'r arolwg staff; siarad â phlant, rhieni, gofalwyr a staff; ac adolygu'r nodiadau achos.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol:

- pobl sy'n cysylltu â ni'n uniongyrchol trwy ein gwefan ac ar y ffôn;
- pryderon a leisir wrth arolygwyr gan blant, rhieni ac ymarferwyr pan fyddant yn ymweld â gwasanaeth, neu arolygon a gwblhawyd; a
- phryderon gan asiantaethau eraill, e.e. Estyn, yr Awdurdod Tân, ac adrannau lechyd yr Amgylchedd.

## Yr iaith Gymraeg

Rydym yn ymroddedig i gynnal arolygiadau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwasanaethau Cymraeg eu hiaith, ac i gyhoeddi adroddiadau arolygu yn y Gymraeg ar gyfer gwasanaethau Cymraeg eu hiaith a gwasanaethau dwyieithog, neu yn iaith o ddewis y darparwr cofrestredig.

Rydym wedi ymrwymo i wneud dyfarniadau penodol mewn arolygiadau llawn ar sail yr hyn a adwaenir fel y "cynnig gweithredol" ynglŷn â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r "cynnig gweithredol" yn golygu bod y gwasanaeth **yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano**. Dylai arolygwyr gofnodi'r dyfarniad mwyaf cywir o dan y thema Ansawdd Gofal a Datblygiad:

1. Mae'r gwasanaeth yn gwneud y "cynnig gweithredol" o ran y Gymraeg.

2. *Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at wneud y "cynnig gweithredol" o ran y Gymraeg*
3. *Nid yw'r gwasanaeth yn gwneud y "cynnig gweithredol" o ran y Gymraeg.*

## **Cynnal arolygiadau – casglu a defnyddio tystiolaeth**

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr amser rydym yn ei dreulio ar safle ar gyfer arolygiad, rhaid inni sicrhau bod gennym y wybodaeth gywir i'n cynorthwyo ni i ganolbwyntio ar yr hyn sydd o'r pwys mwyaf i bobl. Mae hyn yn dylanwadu ar yr hyn rydym yn edrych arno, â phwy byddwn yn siarad, a nifer yr arolygwyr y gallwn eu hanfon. Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei defnyddio hefyd yn dystiolaeth pan fyddwn yn gwneud dyfarniadau am wasanaethau.

Pan fyddant yn cynllunio ymweliad safle, bydd arolygwyr yn ystyried yr hyn a wyddys am wasanaeth, ac yn cwblhau dadansoddiad o'r wybodaeth er mwyn nodi'r prif feysydd a fydd yn cael eu harchwilio yn ystod yr arolygiad. Bydd ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys:

- adroddiadau arolygu blaenorol, gan gynnwys adroddiadau gan Estyn (pan fydd hynny'n briodol);
- y datganiad o ddiben;
- pryderon a leisiwyd wrthym a hysbysiadau am ddigwyddiadau arwyddocaol;
- y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth;
- gwybodaeth ynglŷn â diogelu;
- adolygiad o ansawdd gofal y gwasanaeth ei hun;
- unrhyw weithgarwch gorfodi cyfredol neu ddiweddar; ac
- adborth gan rieni, ymarferwyr a phlant.

Bydd adroddiadau'n seiliedig ar y dystiolaeth a welir yn ystod yr ymweliad safle, a thrwy ystyried yr hyn a wyddys eisoes am y gwasanaeth. Wrth gasglu gwybodaeth, rydym yn rhoi pwyslais ar brofiadau pobl o'r gwasanaeth, yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym, ac arsylwadau gofalus ar sut mae'r gofal yn cael ei ddarparu, a sut mae datblygiad a chanlyniadau lles y plant yn cael eu diwallu.

### **Ar ddechrau arolygiad, fe fydd arolygwyr yn:**

- esbonio diben yr arolygiad, a thrafod amlinelliad o'r rhaglen a'r cynllun ar gyfer yr arolygiad, gan ystyried yr effaith ar y gwasanaeth;
- gofyn i'r dogfennau perthnasol fod ar gael ar ddechrau'r arolygiad;
- gofyn a oes unrhyw broblemau neu risgiau y dylem wybod amdanynt, a gofyn am friff cyffredinol am iechyd a diogelwch;
- sicrhau bod gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer ymdrin ag unrhyw bryderon neu gwynion mae'n bosibl y byddant yn codi yn ystod yr arolygiad;
- gosod y trefniadau ar gyfer rhoi adborth ar ganfyddiadau'r arolygiad, gan gynnwys graddau; a
- chytuno ar drefniadau ar gyfer cwblhau holiaduron ar ôl yr arolygiad.

Mae'r dogfennau mae'n debygol y bydd yr arolygwyr yn gofyn i gael mynediad atynt yn ystod arolygiad yn cynnwys:

- y rhestr staff (ymarferwyr) gan gynnwys manylion am gymwysterau a gwybodaeth am oruchwyliaeth, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus staff, a gweithdrefnau a chofnodion recriwtio staff. Cofnodion ynglŷn â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n crynhoi gwiriadau staff, a'r trefniadau ar gyfer archwilio cefndir a chyflogi'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mewn gwasanaethau gwarchod plant, cofnodion o'r gwiriadau o bobl dros 16 mlwydd oed sy'n byw neu'n gweithio yn y lleoliad, neu'r rhai sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r plant sy'n derbyn gofal;
- polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant;
- polisïau rheoli ymddygiad, gan gynnwys bwlio;
- trefniadau ar gyfer bodloni anghenion plant sydd â chyflyrau meddygol;
- llyfrau cofnodi damweiniau, digwyddiadau neu gwynion;
- asesiadau risg a manteision, asesiadau diogelwch tân, a pholisïau eraill sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch;
- rhestr o unrhyw atgyfeiriadau diogelu a wnaed i'r awdurdod lleol, a manylion yr hyn a wnaed i ddatrys y mater;
- unrhyw adroddiadau am werthusiadau allanol o'r gwasanaeth;
- y polisi cyfrinachedd;
- cofnodion presenoldeb y plant;
- cofnodion presenoldeb a rotâu ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr;
- sampl o gofnodion datblygu plant; ac
- ar gyfer gwasanaethau chwarae mynediad agored, hunan asesiad i bennu'r cymarebau staffio priodol ar gyfer plant 8-12 mlwydd oed.

## **Cynnal arolygiadau**

Bydd yr amser a dreulir ar y safle'n dibynnu ar fath a maint y ddarpariaeth, ac ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Bydd y rhan fwyaf o arolygiadau, yn enwedig o warchodwyr plant, yn cael eu cynnal gan un arolygydd.

Hyd arferol ymweliadau safle:

- Gwarchodwyr plant – rhwng tair a phum awr, yn dibynnu ar nifer ac ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal;
- Gofal dydd llawn – rhwng pedair a saith awr. Fel arfer, bydd arolygiadau o ddarpariaethau mawr yn cael eu cynnal gan fwy nag un arolygydd;
- Gwasanaethau chwarae mynediad agored – rhwng tair a chwe awr; a
- Gofal dydd sesiynol, clybiau'r tu allan i'r ysgol, a meithrinfeydd – rhwng tair a chwe awr.

Pan fydd arolygwyr yn gwneud gwaith dilynol ynglŷn â phroblemau neu bryderon mwy cymhleth, byddant yn treulio rhagor o amser yn y gwasanaeth.

Bydd arolygwyr yn:

- canolbwyntio ar ddatblygiad, lles a phrofiadau'r plant trwy arsylwi ar arfer – fel arfer, bydd arolygwyr yn defnyddio dull Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer

Arolygu (SOFI) 2 yn ystod pob arolygiad, ac eithrio arolygiadau o warchodwyr plant;

- casglu safbwyntiau plant, eu rhieni, a'r staff/ymarferwyr;
- craffu ar gofnodion a dogfennau, gan gynnwys cofnodion datblygiad plant;
- ceisio gwneud dyfarniadau sy'n deg ac sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth ddilys;
- nodi gwelliannau a chynorthwyo gwasanaethau i weithio tuag atynt mewn modd adeiladol;
- archwilio addasrwydd a diogelwch y safle; a
- chasglu barn y rhai sydd â gofal a'r rhai sy'n gweithredu'r gwasanaeth.

## Rhoi adborth

Ar ddiwedd ymweliad safle, bydd yr arolygydd yn rhoi adborth **cychwynnol** i'r rhai sydd â gofal am y gwasanaeth ar y dydd, neu'n trefnu i gwrdd â'r person cofrestredig ar adeg sy'n gyfleus i bawb pan fydd angen gwneud hynny. Ni fydd gan arolygwyr amser i gwblhau dadansoddiad cyflawn o'r wybodaeth maent wedi ei chasglu, ac mae'n bosibl y byddant yn aros am ragor o wybodaeth cyn dod i unrhyw gasgliadau terfynol.

Bydd yr arolygydd yn **gwneud nodyn o'r adborth** y mae'n ei roi, ond ni fydd yn gadael adroddiad ysgrifenedig nac yn gofyn i'r person â gofal/darparwr lofnodi disgrifiad yr arolygydd o'r adborth. Mae rhoi adborth yn gyfle pwysig i wirio a phrofi'r dystiolaeth mae'n bosibl y bydd yr arolygydd yn dibynnu arni yn ei adroddiad. Dylid dilyn yr egwyddor "dim byd annisgwyl", ac mae'n **rhaid** trafod unrhyw bryderon sydd gan yr arolygydd ar ddiwedd yr arolygiad, ac unrhyw achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio.

Bydd arolygwyr yn **gofyn am** farn y person â gofal/darparwr ar degwch yr arolygiad a'r ffordd y cafodd ei gynnal, a chofnodi'r farn hon, yn ogystal â gadael ffurflen adborth ar gyfer ei sylwadau ar yr arolygiad.

## Cyflwyno graddau

Rydym yn bwriadu cyflwyno graddau. Byddwn yn dechrau dyfarnu graddau ar gyfer ein harolygiadau o wasanaethau gofal dydd llawn o 2018. Bydd gwasanaethau eraill – gwarchodwyr plant, gofal dydd sesiynol, gwasanaethau chwarae mynediad agored, meithrinfeydd, a gofal y tu allan i'r ysgol – yn derbyn graddau ar gyfer arolygiadau o 2019. Byddwn yn dyfarnu gradd yn erbyn pob un o'r pedair thema arolygu.

Er mwyn paratoi darparwyr ar gyfer pan fyddwn yn cyflwyno graddau, yn ystod yr arolygiad nesaf (ar ôl Ebrill 2016) bydd arolygwyr yn siarad â darparwyr am ansawdd y gwasanaeth, a'u hysbysu am y radd y byddent yn ei hystyried yn briodol ar gyfer pob un o'r pedair thema. Mae'n bwysig nodi'r canlynol:

- bydd y graddio cychwynnol hwn ar gyfer y gwasanaeth yn anffurfiol;
- ni fydd arolygwyr yn cofnodi'r radd yn yr adroddiad arolygu cyhoeddedig; a

- bydd arolygiadau yn y dyfodol yn cofnodi'r radd yn yr adroddiad arolygu rydym yn ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Dyfernir graddau ar gyfer pob thema gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt.

**Rhagorol:** Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymroddedig i welliannau parhaus, ac sydd â nifer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion ac arloesedd sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, ac maent yn gallu dangos eu bod yn gwneud cyfraniad cryf i wella lles plant.


**Da:** Mae'r rhain yn wasanaethau sydd â llawer o gryfderau, a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, yn darparu canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hyrwyddo eu lles mewn modd gweithredol.

**Boddhaol:** Mae'r rhain yn wasanaethau y mae eu cryfderau'n gorbwyso eu meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol, ond mae angen gwelliannau i hyrwyddo lles ac i wella canlyniadau i blant.

**Gwael:** Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau, a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar les y plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gweithredu ac yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

### Ein dull ar gyfer penderfynu ar raddau

Diagram 2 yw'r llwybr y bydd arolygwyr yn ei ddilyn wrth benderfynu ar radd.



Dyfernir graddau mewn cyfres o gamau cynyddol.

### **Cam 1 – Cyflawni ein dyletswydd reoleiddiol**

Mae'r cam cyntaf yn seiliedig ar gyflawni ein dyletswydd reoleiddiol a'r angen i roi sicrwydd i'r cyhoedd. Ar gyfer pob thema, rydym yn gofyn i arolygwyr ystyried a yw'r gwasanaeth yn darparu gofal diogel, rhesymol yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Os yw hyn yn wir, yna mae'r gwasanaeth wedi pasio'r trothwy, ac yn gallu cael ei ddyfarnu yn **foddhaol** o leiaf.

Os nad yw hyn yn wir, a gwelir bod y gwasanaeth yn darparu gofal nad yw'n ddiogel sy'n peri risg i blant neu ganlyniadau gwael, rhaid dyfarnu'r thema'n **wael**. Bydd hyn yn arwain at hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno.

### **Cam 2 – Cydnabod ansawdd**

Yr ail gam yw cydnabod ansawdd. Rydym wedi rhoi syniad clir yn ein fframwaith ynglŷn â'r hyn a olygir gan "dda" ar draws y themâu a'r meysydd sy'n cael eu harolygu.

Unwaith mae'r gwasanaeth wedi pasio'r trothwy "boddhaol", rydym yn gofyn i arolygwyr ystyried a yw'r gwasanaeth yn perfformio ar lefel y gellid ei hystyried yn dda. I ennill "da", rhaid i wasanaeth meddu ar gyfran uchel o feysydd lle mae cryfderau, h.y. lle mae'r gwasanaeth yn perfformio ar lefel sy'n cyd-fynd â'n disgrifiadau ni o'r hyn a olygir gan dda (gweler Atodiadau A a B).

Nid ydym yn rhoi sgôr neu gyfanswm y nifer o feysydd, er bod hyn yn gallu helpu ein harolygwyr wrth iddynt ddyfarnu gradd. Bydd arolygwyr yn ystyried yr holl wybodaeth ar draws yr holl feysydd ym mhob thema. Bydd arolygwyr yn penderfynu a oes achos a thystiolaeth gref, at ei gilydd, dros ddweud bod gwasanaeth yn perfformio ar lefel y gellir ei hystyried yn dda. Os yw hyn yn wir, gellir dyfarnu gradd **dda** i'r gwasanaeth.

Yn yr un modd, os yw'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion ychwanegol perthnasol, dyfernir gradd o "rhagorol".

### **Adroddiadau arolygu**

Mae adroddiad arolygu'n cael ei baratoi ar ôl pob arolygiad. Mae'n hadroddiadau ni'n canolbwyntio ar ganlyniadau lles ar gyfer plant, a pha mor dda mae pob un o'r pedair thema'n cyfrannu at les plentyn. Rydym yn disgrifio'r arfer da rydym yn ei weld, yn ogystal ag unrhyw bryderon sydd gennym am y gwasanaeth. Yn ein hadroddiadau, rydym yn amlinellu'n eglur unrhyw dystiolaeth ynglŷn â diffyg cydymffurfio, yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu rydym yn gofyn i'r darparwr eu cymryd.

Mae'n bosibl y bydd yr adroddiad arolygu'n nodi argymhellion ar gyfer gwelliannau a fydd yn destun gwaith dilynol yn ystod yr arolygiad nesaf. Dylai'r argymhellion roi



syniad clir a phenodol i'r gwasanaeth am y meysydd sydd angen eu gwella y bydd yn rhaid mynd i'r afael â nhw. Gellir gweld enghraifft o adroddiad yn Atodiad C.

Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi adrodd agored ar ein gwefan.

## **Diffyg cydymffurfio**

Mae ein harolygiadau'n canolbwyntio ar brofiad a chanlyniadau ar gyfer plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn ogystal ag ystyried y rheoliadau priodol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Pan fydd yr arolygiadau ar gyfer plant yn wael, byddwn yn cymryd camau. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, gorfodi amodau brys ar gofrestrriad gwasanaeth, neu erlyniad troseddol. Mae ein hymateb i ddiffyg cydymffurfio yn cael ei lywio gan yr egwyddorion canlynol.

- **Cyfrifoldeb y darparwr:** Mae darparwyr gwasanaethau'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Oni bai bod angen camau gweithredu ar unwaith, rhoddir cyfle i ddarparwyr unioni methiannau.
- **Cymesuredd:** Pan fyddwn yn cymryd camau, bydd y rhain yn gymesur â'r canlyniadau ar gyfer y plant sy'n derbyn gwasanaethau, y risg i'w hiechyd a'u lles, a pharodrwydd y darparwr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio. Ein blaenoriaeth yw canolbwyntio ar y meysydd lle mae diffyg cydymffurfio'n cael effaith uniongyrchol ar les plentyn.
- **Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:** Bydd y camau a gymerir gennym yn glir, yn gyson, yn amserol, yn deg ac yn dryloyw.
- **Camau cynyddol:** Bydd darparwyr sy'n methu â chydymffurfio â'r rheoliadau'n barhaus yn wynebau camau gorfodi cynyddol, gan gynnwys atal eu cofrestrriad – neu yn y pen draw ei ddileu.
- **Gweithio gyda phobl eraill:** Rydym yn gweithio gydag asiantaethau, rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill i sicrhau bod unrhyw gamau'n cael eu cydlynu, a bod gwybodaeth a phryderon yn cael eu rhannu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fydd pryderon ynglŷn â materion iechyd a diogelwch sy'n cael eu harolygu gan reoleiddwyr eraill.

Dylai achosion o ddiffyg cydymffurfio ffurfio rhan o'r adborth ar ôl yr arolygiad ac yn cael eu nodi yn yr adroddiad arolygu. Pan fydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ar wahân wedi cael ei gyflwyno, bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, a bydd ein proses diffyg cydymffurfio'n cael ei dilyn.



## Atodiad A: Fframwaith arolygu ar gyfer gofal plant

THEMA	YR HYN SY'N CAEL EI WERTHUSO	ENGHREIFFTIAU O'R HYN A OLYGIR GAN "DA"	ERTHYGL CCUHP
1. LLES	Bydd dyfarniadau bob amser yn ystyried oedran, cam datblygu, anghenion dysgu ychwanegol a man cychwyn y plentyn, yn ogystal â'r math o wasanaeth mae'n ei fynychu.	Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n rhoi enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol i blant.	
1.1 I ba raddau mae gan y plant lais?	<p>Dylai'r arolygwyr werthuso'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau</li> <li>• a wrandewir ar y plant ac a yw pob ymgais i gyfathrebu'n cael ei werthfawrogi</li> <li>• a yw'r plant yn cael eu hannog i siarad a mynegi eu hunain</li> <li>• a yw'r plant yn mynegi eu barn ac yn gwybod y gwrandewir ar eu syniadau</li> <li>• a yw'r plant yn cyfrannu at syniadau ar gyfer themâu a phynciau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bron pob plentyn yn siarad neu'n mynegi ei hun yn dda trwy gydol y sesiwn, ac yn cyfathrebu ei anghenion mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn hyderus wrth gyfathrebu oherwydd ei fod yn gwybod bod iaith ei gartref yn derbyn yr ystyriaeth briodol</li> <li>• Mae bron pob plentyn sydd angen gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn y gwasanaeth hwnnw</li> <li>• Mae bron pob plentyn y gwybod bod yr ymarferwyr yn deall ei anghenion, ei hoffterau, ei deimladau a'i giwiau di-eiriau, a bod ei anghenion unigol yn cael blaenoriaeth dros y drefn feunyddiol</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol, oherwydd eu bod yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt, ac maent yn cydnabod hawl eraill i wneud yr un peth</li> <li>• Ymgynghorir â mwyafrif y plant ar amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i'w cam datblygu</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn cymryd rhan yn dda, ac yn cael eu hannog i fynegi eu barn ac i gyfrannu'n briodol at syniadau</li> </ul>	Erthyglau 2, 12, 23, 29

		<p>ynghylch yr hyn yr hoffent ei wneud neu ei ddysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bron pob plentyn yn cael amser a chymorth da i wneud dewisiadau, i ddatrys problemau ac i wneud pethau drosto ei hun</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn deall y broses ar gyfer mynegi pryder neu gwyno, ac yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny.</li> </ul>	
<p><b>1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac fel pe baent yn cael eu gwerthfawrogi?</b></p>	<p>Dylai'r arolygwyr werthuso'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant wedi ymgynefino ac yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni</li> <li>• a yw'r plant yn datblygu ymlyniadau emosiynol cadarnhaol ag eraill</li> <li>• a yw'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, yn gyfforddus ac yn ymlaciedig</li> <li>• a yw'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu hawliau'n cael eu parchu</li> <li>• a yw'r plant yn teimlo anwyldeb tuag at ymarferwyr, sy'n eu hadnabod yn dda ac yn rhoi gofal cyson iddynt, sy'n meithrin hyder a hunan-fri cadarnhaol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni/gofalwyr, ac yn teimlo'n ddiogel, oherwydd eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod y broses ddyddiol o gael eu cludo o'r tŷ ac fel arall, yn ogystal â symud o gwmpas yn y lleoliad</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn gyfarwydd â threfn feunyddiol y gwasanaeth, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt, ac yn ddatblygiadol addas i'w hanghenion</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn teimlo anwyldeb tuag at eu gweithiwr allweddol. O ganlyniad, maent yn gyfforddus, wedi ymgynefino ac yn ymlaciedig, ac yn chwilio am bobl gyfarwydd maent yn gwybod y byddant yn eu helpu ac yn cynyddu eu hyder</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn magu ymdeimlad o fod yn perthyn</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn datblygu cydberthnasau agos ac yn gwneud ffrindiau</li> <li>• Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hyderus bod eu teimladau, eu hoffterau, eu cas bethau a'u pryderon yn cael eu hystyried, neu'n cael eu trafod os na ellir eu diwallu.</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 12, 23, 29</p>

	<ul style="list-style-type: none"><li>• a yw'r plant yn gwneud ffrindiau ag eraill</li><li>• a yw'r plant yn gwybod â phwy ddylent siarad os ydynt yn anhapus neu'n poeni am rywbeth</li><li>• a yw'r plant yn hyderus y bydd eu teimladau, eu hoffterau, eu cas bethau a'u pryderon yn cael eu hystyried.</li></ul>		
--	--	--	--

<p><b>1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?</b></p>	<p>Dylai'r arolygwyr werthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant yn wydn ac yn gallu ymdopi</li> <li>• a yw'r plant iau yn dechrau deall eu teimladau ac yn dod yn sensitif i emosiynau eraill</li> <li>• a yw plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad, i gydweithredu, i gymryd eu tro ac i rannu, ac a yw'r plant iau'n dechrau gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg</li> <li>• a yw'r plant hŷn yn hunanddisgybledig ac yn pennu rheolau ar gyfer ymddygiad cymdeithasol derbyniol – ac yn cydymffurfio â nhw.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bron pob plentyn yn rhyngweithio ac yn cydweithio'n dda â'i gyfoedion ac ag oedolion</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn dod yn hunanymwybodol ac yn dysgu i ofyn am yr hyn sydd ei angen arnynt</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn cynnal eu diddordeb mewn tasgau, ac yn dangos gwydnwch a strategaethau ymdopi priodol wrth ymdrin â newid neu siomedigaethau</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn gwrtais ac yn foesgar</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn cymryd y gofal priodol o offer ac adnoddau</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn dechrau deall eu teimladau a'u hemosiynau, ac yn dysgu sut i'w mynegi'n briodol</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn dod yn sensitif i emosiynau eraill; maent yn dod yn hunanddisgybledig ac yn derbyn gwahaniaethau o ran hil, rhyw, gallu, oedran a chrefyddau/diwylliannau</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn gwybod rheolau ymddygiad y gwasanaeth, ac mae'r plant hŷn yn cymryd rhan yn y gwaith o weithredu'r rheolau. Maent yn dangos parch tuag at eiddo a phobl, ac yn deall canlyniadau eu gweithrediadau.</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 12, 23, 29</p>
<p><b>1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?</b></p>	<p>Dylai'r arolygwyr werthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant yn ddysgwyr prysur a chwilfrydig</li> <li>• a yw'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, a oes ganddynt diddordeb, ac a ydynt yn llawn cyffro</li> <li>• a yw'r plant yn dyfalbarhau am gyfnod priodol o amser</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae mwyafrif y plant yn frwdfrydig iawn ac yn canolbwyntio ar eu chwarae a'u dysgu, ond maent hefyd yn gallu ymlacio a mwynhau amser tawel</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, o dan do ac yn yr awyr agored, ac yn cynnal eu diddordeb mewn tasgau annibynnol</li> <li>• Mae'r plant yn gallu archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac yn ddiogel</li> <li>• Mae'r plant yn cael cyfnodau estynedig a di-dor o chwarae, sy'n cael eu cychwyn ganddyn nhw eu hunain, yn ogystal â chyfleoedd aml lle mae oedolion yn chwarae ochr yn ochr</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 12, 23, 29</p>

	<p>er mwyn cwblhau gweithgaredd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau</li> <li>• a yw'r plant yn cael ymdeimlad o gyflawniad yn yr hyn maent yn ei wneud</li> <li>• a yw'r plant yn mwynhau chwarae wedi ei drefnu, chwarae rhydd, a gweithgareddau hamdden.</li> </ul>	<p>â'r plant</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn ystod gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr, mae mwyafrif y plant yn canolbwyntio am gyfnod o amser sy'n briodol ar gyfer eu cam datblygu, ac mae'r plant hŷn yn dangos eu bod wedi bod yn talu sylw trwy ymateb yn dda</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn awyddus i ddangos yr hyn maent wedi bod yn ei wneud, neu i siarad amdano</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn gallu dylanwadu ar y gweithgareddau a'r tasgau maent yn ymgymryd â nhw.</li> </ul>	
<p><b>1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu ac yn dod yn annibynnol?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr werthuso'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pa mor dda mae'r plant yn datblygu'n emosiynol, yn gorfforol, yn gymdeithasol, yn greadigol, yn ieithyddol ac yn ddeallusol</li> <li>• pa mor hyderus ac annibynnol yw'r plant</li> <li>• pa mor frwdfrydig yw'r plant ac a ydynt yn gallu dilyn diddordebau personol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae mwyafrif y plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau, gan gynnwys chwarae rhydd o'u dewis eu hunain, heb strwythur ac wedi'i arwain ganddynt, sy'n eu galluogi i ennill ystod eang o sgiliau, i fod yn annibynnol, i gymryd rhan, i ddilyn diddordebau, ac i hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn datblygu'n dda, yn hyderus i brofi pethau newydd, yn cymryd risgiau, ac yn teimlo balchder yn eu cyflawniadau</li> <li>• Mae gan fwyafrif y plant berthynas ddiogel ag ymarferwyr cyson a'u cyfoedion, sy'n eu helpu i ennill hyder a goresgyn heriau</li> <li>• Mae gan fwyafrif y plant yr hyder i ddefnyddio amrywiaeth dda o gyfryngau a defnyddiau i ddatblygu'n greadigol, i arbrofi, ac i fod yn ddychmygus</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn dysgu pwysigrwydd ymarfer corff, bwyta'n iach a diogelwch personol, ac mae'r plant hŷn yn dysgu am gydb berthnasau iach</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn gallu cyflawni pethau'n dda drostynt eu hunain, oherwydd eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol i helpu eu hunain</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 12, 23, 29</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae mwyafrif y plant yn dangos parodrwydd i gymryd y cam cyntaf i gwblhau tasgau ac i ddatrys problemau</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn ymdopi'n dda â phrofiadau heriol</li> <li>• Mae mwyafrif y plant, fel rhan o'u natur, yn awyddus i ddewis eu chwarae'n rhydd ac i arwain eu chwarae eu hunain.</li> </ul>	
--	--	---	--

THEMA	YR HYN SY'N CAEL EI WERTHUSO	ENGHREIFFTIAU O'R HYN A OLYGIR GAN "DA"	ERTHYGLAU CCUHP
<b>2. GOFAL A DATBLYGIAD</b>	Bydd dyfarniadau bob amser yn ystyried oedran, cam datblygu, anghenion dysgu ychwanegol a man cychwyn y plentyn, yn ogystal â'r math o wasanaeth mae'n ei fynychu.	Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n rhoi enghreifftiau o'r effaith gadarnhaol mae darparwyr/ymarferwyr yn gallu ei chael ar ganlyniadau da ar gyfer plant. Mae darparwyr/ymarferwyr yn cynnwys gwarchodwyr plant a'r rhai sy'n cael eu cyflogi i weithio'n uniongyrchol gyda phlant.	
<b>2.1 Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?</b>	Bydd arolygwyr yn gwneud dyfarniad ynglŷn â pha mor dda mae polisiâu a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant yn cael eu gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• y polisi amddiffyn plant</li> <li>• iechyd a diogelwch, gan gynnwys hylendid bwyd a'r ddarpariaeth ar gyfer rheoli heintiau</li> <li>• diogelwch tân</li> <li>• hyrwyddo ffordd iach o fyw</li> <li>• gweinyddu meddyginiaeth yn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn sicrhau bod pob ymarferydd yn deall ac yn gweithredu'r polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth uchel a'i fod yn sail i'r holl arferion, a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o ddiogelu yn ei gyd-destun ehangach</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu, hyrwyddo ffordd iach o fyw, gofal personol, diogelwch personol, a chydberthnasau</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn gweithredu egwyddorion yr offeryn archwilio rheoli heintiau</li> </ul>	Erthyglau 3, 6, 8, 14, 16, 19-24, 28-31, 33, 34, 36, 39



	<p>ddiogel</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cefnogi plant sydd â chyflyrau meddygol</li> <li>• gweinyddu cymorth cyntaf</li> <li>• diogelwch yn ystod diwrnodau i ffwrdd ac ymweliadau</li> <li>• diogelwch ar y we</li> <li>• bwlio</li> <li>• rheoli ymddygiad plant, gan gynnwys ymyrryd a rhwystro plant yn gorfforol.</li> </ul> <p><b>Amddiffyn plant</b></p> <p>Wrth ystyried pa mor effeithiol yw gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant, dylai arolygwyr werthuso a yw'r risgiau i blant yn cael eu nodi; a yw arwyddion a symptomau camdriniaeth yn cael eu cydnabod a'u deall; ac a yw polisi amddiffyn plant y gwasanaeth yn cael ei weithredu'n gywir.</p>	<p>os yw'n berthnasol i'w gwasanaeth nhw</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'r arfer gorau o ran rhaglenni bwyta'n iach/ffordd iach o fyw, er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer plant</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol bob dydd</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn darparu canllawiau a therfynau clir ar gyfer plant ynglŷn â defnyddio TGCh, DVDau ac ati, ac mae plant hŷn yn cyfrannu at bolisïau a gweithdrefnau sy'n sicrhau eu bod yn ddiogel</li> <li>• Mae trafodaeth agored â phlant hŷn am eu diogelwch personol, preifatrwydd a chydberthnasau iach.</li> </ul>	
--	---	---	--

<p><b>2.2 Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw ymarferwyr yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth</li> <li>• a yw eu dull o weithredu'n gyson, ac yn ystyried plant unigol, fel nad oes unrhyw ddryswch ym meddwl y plentyn ynglŷn â'r hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol</li> <li>• a ydynt yn gosod terfynau realistig, ac yn defnyddio mesurau disgyblu sy'n ystyried cam datblygu'r plentyn</li> <li>• a ydynt yn annog y plant hŷn i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain</li> <li>• a ydynt yn modelu ymddygiad da.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn deall datblygiad plant a sut mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plant – ac yn deall eu bod nhw eu hunain yn fodolau ymddygiad da</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn gweithredu gweithdrefnau y cytunwyd arnynt er mwyn hyrwyddo ymddygiad da, ac yn rheoli ymddygiad heriol yn gyson. Mae gan yr arweinydd rheoli ymddygiad brofiad o'r grŵp sy'n derbyn gofal, ac mae'r ymarferwyr eraill yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am y rôl hon</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant rheoli ymddygiad ar gyfer y grŵp oedran maent yn gofalu amdano, ac yn defnyddio strategaethau y cytunwyd arnynt i reoli ymddygiad annymunol mewn ffordd dda</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn dda trwy ddathlu ymddygiad da heb gael effaith negyddol er eraill</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn herio ac yn ymateb yn briodol i fwlio, gwahaniaethu rhwng pobl, hiliaeth, a chreu ystrydebau ar sail rhyw</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn hawdd mynd atynt ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol; maent yn gweithredu mewn</li> </ul>	<p>Erthyglau 3, 6, 8, 14, 16, 19-24, 28-31, 33, 34, 36, 39</p>

		<p>ffordd deg ac yn hyrwyddo gonestrwydd ac ymwybyddiaeth o dda a drwg</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn egluro eu safonau ymddygiad, ac yn sicrhau bod gan blant ddigon o wybodaeth ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir ganddynt</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn gwrandao ar safbwyntiau, barn a cheisiadau plant, ac yn eu parchu, ac mae ethos o drafodaeth agored. Maent yn gwerthfawrogi cyfranogiad y plant ac yn sicrhau nad yw'n symbolaidd, gan drafod ac yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r rheswm dros beidio â gwneud rhywbeth</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn annog yr holl blant i gydweithredu, i rannu, i ddeall rheolau ymddygiad derbyniol, i gyd-dynnu ag eraill, i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, ac i ddod yn hunan-ddisgybledig</li> <li>• Mae rhieni a phlant hŷn yn cael eu hysbysu am unrhyw broblemau sylweddol ynglŷn ag ymddygiad, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gweithredu strategaethau i reoli ymddygiad digroeso</li> <li>• Nid yw darparwyr/ymarferwyr yn rhuthro plant. Maent yn ymddwyn fel canolwyr a/neu hwyluswyr, ac yn gallu ymyrryd mewn modd priodol yn ystod dadleuon, er mwyn atal niwed ac osgoi tarfu ar chwarae'r plant yn ddiangen. Maent hefyd yn gosod rheolau sylfaenol mewn partneriaeth â phlant hŷn.</li> </ul>	
--	--	--	--

<p><b>2.3 Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu awyrgylch/amgylchedd meithringar a gofalgar ac yn darparu gofal ymatebol</li> <li>• gwybod, yn deall ac yn diwallu anghenion a galluoedd unigol</li> <li>• hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn trin pob plentyn ag urddas a pharch</li> <li>• hyrwyddo hawliau a datblygiad yr holl blant, trwy gynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae, dysgu, adloniant a hamdden</li> <li>• gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed</li> <li>• dilyn cynnydd y plant, ac yn defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau er mwyn cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu (ddim yn berthnasol i blant dros wyth mlwydd oed)</li> <li>• sicrhau bod plant yn gallu pennu a rheoli cynnwys eu chwarae trwy ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn garedig, yn feithringar, ac yn ymatebol i anghenion unigol y plant. Maent yn gwerthfawrogi cefndiroedd teuluol y plant, ac yn annog y plant i fynegi eu hunigolrwydd</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn hyrwyddo hawliau plant yn dda, ac yn deall eu cyfrifoldebau o dan CCUHP</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn hyrwyddo goddefgarwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda, ac yn annog chwilfrydedd y plant ynglŷn â'u bywydau a'u credoau eu hunain, a rhai pobl eraill</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn hyderus ac yn ymlaciedig; mae ganddynt wybodaeth gyfredol am ddatblygiad plant ar draws ystod oedran y plant maent yn gofalu amdanynt</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu'r blant, ac maent yn hyrwyddo hyder a hunan-fri'r plant, ac yn darparu teimlad o hwyl a mwynhad</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn sicrhau bod y drefn feunyddiol yn rhoi sefydlogrwydd a diogelwch i'r plant. Mae adegau prysur, gweithgar yn cael eu britho ag adegau tawel er mwyn rhoi amser i'r plant fyfyrion a gorffwys</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn sicrhau bod rhieni (a phlant hŷn) yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd y plentyn, ei gyflawniadau a'i ddatblygiad. Mae rhieni'n cael eu hysbysu'n rheolaidd am les y plant</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr sy'n gofalu am blant o dan wyth mlwydd oed yn cynllunio ac</li> </ul>	<p>Erthyglau 3, 6, 8, 14, 16, 19-24, 28-31, 33, 34, 36, 39</p>
--	---	--	--

	<p>hunain.</p> <p><b>Anghenion dysgu ychwanegol</b></p> <p>Dylai arolygwyr ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• i ba raddau mae'r gwasanaeth yn cynnig mynediad at bob maes dysgu i blant sydd ag anghenion ychwanegol</li> <li>• pa mor gyson mae'r gwasanaeth yn cynnal adolygiadau o gynnydd y plant</li> <li>• a yw ymarferwyr yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd</li> <li>• a yw'r systemau grwpio a chymorth yn diwallu'r amrywiaeth o anghenion, heb gael effaith andwyol ar ehangder, cydbwysedd a pharhad chwarae a dysgu'r plant</li> <li>• pa mor dda mae'r gwasanaeth yn integreiddio, yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol, er</li> </ul>	<p>yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau uniongyrchol, a chyfleoedd chwarae a dysgu ysgogol a heriol, o dan do ag yn yr awyr agored</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn gweithredu egwyddorion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed, ac yn darparu profiadau dysgu diddorol ar draws yr holl feysydd dysgu</li> <li>• Ar gyfer plant dros wyth mlwydd oed, dilynir egwyddorion gwaith chwarae Cymru</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn sicrhau mai'r hyn mae plant yn gallu ei wneud yw'r man cychwyn ar gyfer eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad. Maent yn dilyn ac yn cofnodi arsylwadau priodol ar gynnydd a datblygiad y plant yn rheolaidd trwy ddefnyddio dull priodol, ac yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu</li> <li>• Mae'r broses o gynllunio gweithgareddau'n hyblyg, yn ystyried y math o wasanaeth a barn y plant, ac yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau mae plant yn eu dewis a'r rhai a arweinir gan oedolion</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn paratoi amgylchedd sy'n gyfoethog ei iaith, ac maen nhw eu hunain yn fodolau iaith da</li> <li>• Mae gwasanaethau cyfrwng Saesneg yn rhoi cyfleoedd i blant ddefnyddio a phrofi'r iaith Gymraeg, ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o draddodiadau a dathliadau diwylliannol Cymru</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/ymarferwyr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd chwarae a'r mathau</li> </ul>	
--	---	--	--

	<p>mwyn iddynt wneud cynnydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ansawdd y cymorth ar gyfer plant sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol</li> <li>• ansawdd y gofal ar gyfer plant sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith</li> <li>• pa mor gyson mae'r gwasanaeth yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gynnydd y plant</li> <li>• a yw ymarferwyr yn ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn rheolaidd</li> <li>• y defnydd o wasanaethau arbenigol megis gwasanaethau iechyd, seicolegol a chymdeithasol a'r cyfraniad ganddynt.</li> </ul>	<p>gwahanol o chwarae ar gyfer ystod oedran y plant y maent yn gofalu amdanynt</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn cefnogi ac yn hwyluso'r broses chwarae; maent yn cydnabod yr effaith maen nhw'n ei chael ar y lle chwarae ac effaith y chwarae ar eraill</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn hwyluso amser adloniant a hamdden y plant yn dda</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/ymarferwyr ddealltwriaeth o'r effaith mae anghenion ychwanegol yn ei chael ar ddatblygiad plant</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn llawn ddeall ac yn diwallu anghenion plant sydd ag anghenion ychwanegol. Maent yn gwybod pan fydd gan fabanod neu blant anghenion ychwanegol, yn cymryd y camau cywir, ac yn gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth</li> <li>• Mae darparwyr /ymarferwyr yn defnyddio cynlluniau unigol i roi cymorth i blant sydd ag anghenion ychwanegol yn effeithiol</li> <li>• Mae adolygu a diweddarau cynlluniau'n rheolaidd yn sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da, gyda rhieni'n cael eu cynnwys yn y broses ac yn cael eu hysbysu.</li> </ul>	
--	---	---	--

THEMA	YR HYN SY'N CAEL EI WERTHUSO	ENGHREIFFTIAU O'R HYN A OLYGIR GAN "DA"	ERTHYGL CCUHP
<b>3. AMGYLCHEDD</b>	<p>Mae'r amgylchedd yn cynnwys mannau chwarae o dan do ac yn yr awyr agored, neu unrhyw fan cofrestredig arall. Bydd arolygwyr yn ystyried y math o wasanaeth a gynigir pan fyddant yn gwerthuso'r amgylchedd, ac yn ystyried ansawdd ac addasrwydd yr adnoddau a'r offer chwarae.</p>	<p>Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n rhoi enghreifftiau o sut mae arweinyddiaeth dda'n effeithio ar ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant. Mae arweinwyr yn cynnwys gwarchodwyr plant, personau cofrestredig, unigolion cyfrifol, y person â gofal ac ati.</p>	
<b>3.1 Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?</b>	<p>Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a glân</li> <li>• sicrhau bod unrhyw risgiau diangen i blant wedi cael eu nodi, a chyhyd ag y bo modd, eu gwaredu</li> <li>• sicrhau bod cydbwysedd rhwng yr angen i hyrwyddo iechyd plant a'u hamddiffyn rhag niwed, a'r angen i gefnogi plant wrth iddynt gymryd risgiau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod y safle'n ddiogel, a bod y gofynion diogelwch yn Safon 24 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yn cael eu gweithredu, a'u bod yn dilyn yr holl ofynion iechyd a diogelwch eraill</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelwch a lles y plant, a bod ymarferwyr yn deall y gofynion iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'w gwasanaeth, ac yn dilyn polisiau a gweithdrefnau perthnasol y gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn goruchwyllo plant yn dda, ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg derbynol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant y maent yn gweithio gyda nhw</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod y drefn</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 33, 35</p>

		<p>lanhau yn adlewyrchu arferion hylendid da a rheoli heintiau effeithiol</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod asesiadau risg effeithiol yn gynhwysfawr, yn cael eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd, ac y gweithredir ar y canfyddiadau er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae hyn yn cael ei gyfathrebu'n dda i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu'n gweithio ynddo</li><li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cynnal a chadw, a diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae peryglon yn cael eu nodi ac yn derbyn sylw'n fuan, ac mae cofnodion diogelwch yn cael eu diweddarau</li><li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb ynglŷn â sut yr ymdrinnir ag argyfyngau yn y gwasanaeth.</li></ul>	
--	--	---	--



<p><b>3.2 Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod yr adeilad ac unrhyw fannau chwarae y tu allan yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar, ac yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu</li> <li>• sicrhau bod digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant</li> <li>• sicrhau bod trefn a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, a'i fod yn cael ei ystyried o safbwynt y plentyn</li> <li>• sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal a'i gadw, a'i addurno'n dda</li> <li>• sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer staff a sgysiau cyfrinachol</li> <li>• sicrhau bod mannau chwarae/adloniant ar gyfer plant hŷn yn cynnig heriau a risgiau addas, a chyfleoedd i arbrofi.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael digon o fannau chwarae o dan do, fel sy'n ofynnol o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, ar gyfer y math o wasanaeth a ddarperir</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod y defnydd o fannau yn yr awyr agored yn cael blaenoriaeth uchel, a bod y mannau hyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ym mhob gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n gefnogol, yn gyfforddus ac yn ysgogol, ac sy'n ystyried anghenion crefyddol, diwylliannol ac ieithyddol y plant</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddefnyddio mewn modd hyblyg, ac yn creu teimlad da o sicrwydd a pherthyn</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr holl amgylchedd yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae, sy'n addas ar gyfer grŵp oedran y plant sy'n derbyn gofal</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd o dan do wedi'i addurno'n dda, yn canolbwyntio ar y plentyn, yn groesawgar ac yn gynhwysol, ac yn ddo ddigon o gyfleusterau sy'n gwella lles y plant</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynllunio'n dda, er mwyn</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 33, 35</p>
---	---	---	----------------------------

		<p>adlewyrchu anghenion a diddordebau'r plant sy'n defnyddio'r lle</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu archwilio eu hamgylchedd yn rhydd, ac yn cael eu cefnogi i gymryd risgiau cadarnhaol ac i wneud penderfyniadau</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei newid neu ei addasu i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad at y ddarpariaeth, ni waeth beth yw ei anghenion neu ei alluoedd.</li> </ul>	
<p><b>3.3 Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau ac offer?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod gan y plant fynediad at ddodrefn, offer, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion</li> <li>• sicrhau bod dyluniad a chyflwr adnoddau'n addas, a'u bod yn cael eu cynnal yn dda er mwyn cydymffurfio â'r safonau diogelwch perthnasol</li> <li>• sicrhau bod adnoddau'n lân a bod y broses o'u cynnal yn cydymffurfio ag egwyddorion rheoli heintiau</li> <li>• sicrhau bod teganau a</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu, sydd o ansawdd uchel ac yn briodol ar gyfer cam datblygu'r plant, o dan do ac yn yr awyr agored. Mae digon o'r rhain ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth a dewis da</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amrywiaeth o adnoddau ac offer ar gael i'r plant yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad rhwydd at amrywiaeth dda o adnoddau i hyrwyddo chwilfrydedd y plant – gan gynnwys eitemau i'r tŷ; adnoddau naturiol, cyffyrddol a synhwyrol; darnau rhydd; a chynhyrchion ailgylchadwy a masnachol – sy'n addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 33, 35</p>

	<p>deunyddiau chwarae yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod y man awyr agored yn darparu cyfleoedd chwarae a dysgu</li> <li>• sicrhau bod digon o ddodrefn o faint sy'n addas i blant, teganau, adnoddau ac ati ar gael ar gyfer maint y grŵp</li> <li>• sicrhau bod amrywiaeth eang o ddeunyddiau cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at adnoddau'n hawdd, trwy eu storio a'u labelu'n dda (yn Saesneg ac yn Gymraeg). Maent yn heriol ac yn ysgogol ac yn caniatáu i'r plant ddilyn eu diddordebau</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau, teganau ac arddangosfeydd yn adlewyrchu'r gymdeithas ehangach ac yn hyrwyddo cydraddoldeb yn dda</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod mynediad i deganau, gemau trydanol, DVDau a'r we yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i oed a cham datblygu'r plant</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod manau storio addas ar gael ar gyfer adnoddau a ddefnyddir o dan do ac yn yr awyr agored, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda.</li> </ul>	
--	--	--	--

THEMA	YR HYN SY'N CAEL EI WERTHUSO	ENGHREIFFTIAU O'R HYN A OLYGIR GAN "DA"	ERTHYGL CCUHP
<b>4. ARWEINYDDIAETH H A RHEOLAETH</b>	<p>Bydd arolygwyr yn ystyried math a natur y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynorthwyo pob aelod o staff i gymryd rhan yn ei ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys cymryd rhan mewn profiadau dysgu ar gyfer yr holl wasanaeth.</p>	<p>Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n rhoi enghreifftiau o sut mae arweinyddiaeth dda'n effeithio ar ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant. Mae arweinwyr yn cynnwys gwarchodwyr plant, personau cofrestredig, unigolion cyfrifol, y person â gofal ac ati.</p>	
<b>4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?</b>	<p>Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cydymffurfio â'r holl reoliadau ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</li> <li>• meddu ar ddatganiad o ddiben clir sy'n rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth</li> <li>• cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda</li> <li>• hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch</li> <li>• cefnogi a herio pawb i wneud eu gorau mewn modd gweithredol</li> <li>• gosod disgwyliadau uchel</li> <li>• datblygu teimlad o fwriad sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau</li> <li>• rhannau eu gwerthoedd a'u normau ynglŷn â dysgu, ymddygiad, cydberthnasau, a</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr deimlad o fwriad sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau a chanlyniadau ar gyfer plant o bob oedran</li> <li>• Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth y maent yn ei rhannu â phobl eraill mewn modd effeithiol</li> <li>• Maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol sy'n rhoi disgrifiad cywir o'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei gynnig</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol, ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rheolaidd</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod polisiau effeithiol ar waith, a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n ymarferol</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn cyfathrebu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliannau, ac yn herio ymarferwyr mewn modd cadarnhaol ac effeithiol</li> <li>• Maent yn adeiladu timau'n effeithiol, ac yn herio perfformiad gwael mewn modd cadarn</li> </ul>	<p>Erthyglau 1-3, 9, 15, 18, 26, 42</p>

	<p>datblygiad proffesiynol parhaus</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pennu amcanion a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant, yn cael eu deall a'u gweithredu gan bob ymarferydd, ac yn cael eu gwneud ar gael i rieni</li> <li>• monitro a gwerthuso canlyniadau ar gyfer plant</li> <li>• sicrhau bod y person(au) cofrestredig/unigolyn cyfrifol yn cael digon o wybodaeth am gynnydd y gwasanaeth</li> <li>• creu ethos cadarnhaol lle mae'r plant a'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cydberthnasau â rhanddeiliaid yn gadarnhaol, ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at y teimlad o gymuned</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr ddealltwriaeth ddiogel o'r arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant y maent yn gofalu amdanynt, ac yn hyrwyddo'r arferion hyn yn effeithiol</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr ddealltwriaeth ddiogel o'u cyfrifoldeb am hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ac maent yn gallu dangos bod y "cynnig gweithredol" yn cael ei weithredu.</li> </ul>	
--	---	---	--

<p><b>4.2 Pa mor effeithiol yw'r hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr ystyried a yw proses hunanwerthuso'r gwasanaeth yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd y gofal a ddarperir</li> <li>• cynnwys pob ymarferydd yn y broses o asesu canlyniadau a'i berfformiad ei hun, megis adfyfrio ar yr hyn y mae'n ei wneud bob dydd</li> <li>• ystyried safbwyntiau ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, plant, y pwyllgor rheoli a rhanddeiliaid eraill sy'n berthnasol i'r gwasanaeth, ac yn paratoi adroddiad a'i rannu â chyfranogwyr</li> <li>• defnyddio cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, pan fydd hynny'n briodol</li> <li>• rhoi blaenoriaeth i faterion maent am eu gwella</li> <li>• gweithredu strategaethau diogel sy'n debygol o arwain at y gwelliannau sydd eu hangen</li> <li>• ystyried a yw pryderon/cwynion wedi derbyn y sylw priodol</li> <li>• arwain at welliannau i ansawdd y gofal, y chwarae a'r dysgu a ddarperir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr ac ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda, ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o hunanwerthusiad parhaus, sydd wedi'i ymgorffori yn yr arferion bob dydd</li> <li>• Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer casglu safbwyntiau'r plant yn rheolaidd, a rhoi adborth iddynt</li> <li>• Mae cryfderau a meysydd i'w gwella'n cael eu nodi, a chymerir camau er mwyn cynnal a gwella arferion, ac i weithredu newidiadau</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr/ymarferwyr yn croesawu syniadau newydd; maent yn fodlon rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol o weithio a rhannu eu gwybodaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn adfyfrio ac yn ceisio adborth ynglŷn â'u harfer eu hunain, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon er budd y gwasanaeth</li> <li>• Mae safbwyntiau'r plant, eu rhieni/gofalwyr, staff a phartneriaid eraill sydd â diddordeb yn cael eu casglu mewn modd effeithiol. Caiff y safbwyntiau hyn eu hystyried yn rhan o'r broses hunanwerthuso barhaus</li> <li>• Mae'r adolygiad ansawdd gofal blynyddol yn dangos yn glir pwy sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad, unrhyw broblemau a leisiwyd, sut y gwneir gwelliannau, a sut y bydd hyn o fudd i'r plant. Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn arolygiad diwethaf AGGCC nad ydynt wedi cael eu datrys, ac mae'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion a wnaed gan gyrff proffesiynol eraill</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y gwasanaeth yn dda er mwyn gwneud cynnydd yn unol â blaenoriaethau'r gwasanaeth</li> <li>• Mae gwersi'n cael eu dysgu ac mae camau priodol yn cael eu cymryd ynglŷn ag unrhyw bryderon neu cwynion a wnaed am y gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod plant yn deall y broses ar gyfer lleisio pryder/gwneud cwyn, ac yn cael eu galluogi i wneud hynny mewn amgylchedd diogel.</li> </ul>	<p>Erthyglau 1-3, 9, 15, 18, 26, 42</p> <p>19<sup>TH</sup> May 2016</p>
--	---	---	---

<p><b>4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dilyn prosesau recriwtio sy'n ddiogel, yn gadarn ac yn amserol</li> <li>• diffinio rolau a chyfrifoldebau</li> <li>• defnyddio system effeithiol ar gyfer goruchwyllo ac arfarnu ymarferwyr sy'n arwain at dargedau y cytunwyd arnynt</li> <li>• sicrhau bod digon o staff cymwysedig a phrofiadol ar gyfer yr amrywiaeth o blant maent yn gofalu amdanynt, a'u bod yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol</li> <li>• datblygu cynlluniau wrth gefn i gyflenwi pan fydd staff yn absennol o'r plant</li> <li>• sicrhau bod ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau ynglŷn ag amcanion y gwasanaeth</li> <li>• rheoli eu hamser eu hunain ac yn blaenoriaethu eu gweithgareddau eu hunain mewn modd ymatebol</li> <li>• cyfathrebu disgwyliadau uchel i'r rhai maent yn eu rheoli</li> <li>• cytuno ar dargedau heriol a realistig ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer pobl eraill, ac yn cyrraedd y targedau hynny</li> <li>• sicrhau canlyniadau priodol ar gyfer plant yn gyffredinol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod diogelu plant yn ganolog i'r broses o recriwtio ymarferwyr, ac mae ganddynt systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau o addasrwydd yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen</li> <li>• Mae'r broses recriwtio'n sicrhau bod y bobl fwyaf priodol yn cael eu penodi ar gyfer eu rolau. Mae gallu ymarferwyr i siarad Cymraeg yn cael ei asesu a'i hyrwyddo</li> <li>• Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gwaith o recriwtio ymarferwyr yn amserol ac yn cael ei reoli er mwyn diwallu anghenion yr holl grŵp oedran</li> <li>• Mae gan bob ymarferydd rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn cynnal gweithdrefn ymsefydlu effeithiol ar gyfer gwirfoddolwyr ac ymarferwyr, ac mae proses rheoli perfformiad/cynllun hyfforddi ar gyfer pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer pobl eraill, maent yn gosod targedau realistig, maent yn ddelfrydau ymddwyn da, ac maent yn hyrwyddo ymarferwyr i ragori</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn sicrhau dilyniant gofal ar gyfer y plant, a bod digon o ymarferwyr sydd â'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion y plant</li> <li>• Mae trefniadau effeithiol ar waith er mwyn ymdrin ag absenoldeb ymarferwyr (wedi'i gynllunio ac yn annisgwyl) sy'n sicrhau nad yw ansawdd y gofal mae'r plant yn ei dderbyn yn cael ei effeithio</li> </ul>	<p>Erthyglau 1-3, 9, 15, 18, 26, 42</p>
---	--	--	---

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae goruchwyliaeth ac arfarniadau ymarferwyr yn ystyrllon. Maent yn nodi hyfforddiant sydd ei angen neu hyfforddiant mae'r ymarferwr yn dymuno ei gwblhau</li> <li>• Mae diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael ei fodelu gan arweinwyr.</li> </ul>	
<b>4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?</b>	<p>Dylai arolygwyr ystyried a yw'r gwasanaeth yn glir ynglŷn â'i rôl a'i gyfrifoldeb am sefydlu ymddiriedaeth a sianeli cyfathrebu clir rhwng partneriaid.</p> <p>Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio gyda rhieni er mwyn nodi anghenion a hoffterau unigol eu plentyn cyn ac yn ystod ei amser yn y gwasanaeth</li> <li>• gweithio gyda rhieni er mwyn gwella lles a dysgu eu plentyn o ddydd i ddydd</li> <li>• hysbysu rhieni am les, gofal, datblygiad a chynnydd eu plentyn</li> <li>• cynnwys rhieni yn y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â chynnydd a lles eu plentyn</li> <li>• darparu gwybodaeth ar gyfer rhieni am bolisiau a gweithdrefnau'r gwasanaeth</li> <li>• datblygu cysylltiadau â phartneriaid yn y gymuned.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwella lles a dysgu plant, ac yn cymryd camau gweithredol er mwyn cynnwys rhieni a gofawyr yn y gwasanaeth</li> <li>• Maent yn darparu gwybodaeth berthnasol ar gyfer rhieni er mwyn iddynt wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â gofal eu plentyn</li> <li>• Maent yn sefydlu ymddiriedaeth a sianeli cyfathrebu clir â rhieni trwy arferion cynhwysol</li> <li>• Mae'r gwasanaeth yn hysbysu rhieni'n dda am bob agwedd ar ei waith, ac yn annog rhieni i fod yn bartneriaid gweithredol yn lles, datblygiad a dysgu eu plentyn</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn ystyried ac yn ymateb i adborth, pryderon a chwynion mewn modd amserol</li> <li>• Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r gymuned, a pherthynas dda â'r rhanddeiliaid, er mwyn gwella gwaith y gwasanaeth ac i hyrwyddo canlyniadau da ar gyfer plant</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr/ymarferwyr yn gweithio'n dda gydag asiantaethau perthnasol er mwyn cefnogi plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol</li> <li>• Pan fydd pryderon am gynnydd neu ddatblygiad plant, mae camau a phrotocolau clir ar waith ar</li> </ul>	Erthyglau 1-3, 9, 15, 18, 26, 42



		gyfer rannu gwybodaeth. Mae tystiolaeth bod y rhain yn cael eu dilyn yn gyson a bod plant wedi elwa ar y camau a gymerwyd.	
--	--	--	--



## Atodiad B – Fframwaith arolygu ar gyfer chwarae mynediad agored

THEMA	YR HYN SY'N CAEL EI WERTHUSO	ENGHREIFFTIAU O'R HYN A OLYGIR GAN "DA"	ERTHYGL CCUHP
<b>1. LLES</b>	Bydd dyfarniadau bob amser yn ystyried oedran, cam datblygu, anghenion dysgu ychwanegol a man cychwyn y plentyn, yn ogystal â'r math o leoliad y mae'n ei fynychu.	Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n rhoi enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol i blant.	
<b>1.1 I ba raddau mae gan y plant lais?</b>	<p>Dylai'r arolygwyr werthuso'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau</li> <li>• a wrandewir ar y plant ac a yw pob cynnig ar gyfathrebu'n cael ei werthfawrogi</li> <li>• a yw'r plant yn cael eu hannog i siarad ac i fynegi eu hunain</li> <li>• a yw'r plant yn mynegi eu barn ac yn gwybod y gwrandewir ar eu syniadau</li> <li>• a yw'r plant yn cyfrannu at syniadau ar gyfer themâu a phynciau</li> <li>• a yw'r plant yn dewis sut y maent yn chwarae ac â phwy.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bron pob plentyn yn arwain ei chwarae ei hun</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn ymateb yn gadarnhaol i chwarae, ac mae parch cilyddol tuag at blant eraill</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn siarad neu'n mynegi ei hun yn dda trwy gydol y sesiwn, ac yn cyfathrebu ei anghenion mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn hyderus wrth gyfathrebu oherwydd ei fod yn gwybod bod iaith ei gartref yn derbyn yr ystyriaeth briodol</li> <li>• Mae bron pob plentyn sydd angen gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn y gwasanaeth hwnnw</li> </ul>	Erthyglau 2, 12, 23, 29, 31

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bron pob plentyn yn cymryd rhan yn dda ac yn cael ei annog i fynegi ei farn ac i gyfrannu syniadau ynglŷn â'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei weithredu</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn deall y broses ar gyfer mynegi pryder neu gwyno, ac yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny.</li> </ul>	
<b>1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?</b>	<p>Dylai'r arolygwyr werthuso'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, yn gyfforddus ac yn ymlaciedig</li> <li>• a yw'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu hawliau'n cael eu parchu</li> <li>• a yw'r plant yn gwneud ffrindiau â phobl eraill</li> <li>• a yw'r plant yn gwybod â phwy y dylent siarad os ydynt yn</li> <li>• anhapus neu'n poeni am rywbeth</li> <li>• a yw'r plant yn hyderus y bydd eu teimladau, eu hoffterau, eu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bron pob plentyn i'w weld yn hapus yn y gwasanaeth</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn dangos annibyniaeth ac nad ydynt yn dibynnu ar awdurdod neu reolaeth gan oedolion</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn hunanhyderus</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn dangos parch tuag at bobl eraill</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn dangos ei fod yn ymddiried yn yr ymarferwyr</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn egniol ac yn symud o gwmpas, neu wedi ymgolli yn y chwarae y</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 12, 23, 29, 31</p>

	<p>cas bethau a'u pryderon yn cael eu hystyried.</p>	<p>mae'n cymryd rhan ynddo</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae bron pob plentyn yn gyfforddus ac nad yw'n dangos arwyddion o embaras, chwithdod, swildod neu ffurfioldeb.</li><li>• Mae bron pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi ac yn hyderus bod ei deimladau, ei hoffterau, ei gas bethau a'i bryderon yn cael eu hystyried neu'n cael eu trafod os na ellir eu diwallu.</li></ul>	
--	--	--	--

<p><b>1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?</b></p>	<p>Dylai'r arolygwyr werthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>•</li> <li>•</li> <li>• a yw'r plant yn wydn ac yn gallu ymdopi ag ansicrwydd</li> <li>• a yw'r plant yn cael cefnogaeth i ddeall teimladau ac emosiynau pobl eraill</li> <li>• a yw'r plant yn cael cefnogaeth i reoli eu hymddygiad a datblygu cydberthnasau â phobl eraill</li> <li>• a yw'r plant yn cael cefnogaeth i benderfynu pa fath o ymddygiad sy'n gymdeithasol dderbyniol, ac i gydymffurfio â'r ymddygiad hwennw.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae mwyafrif y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o fathau o chwarae</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn penderfynu pa fath o ymddygiad sy'n briodol</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn ei herio ei hun yn ei ffordd ei hun</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn archwilio ei werthoedd ei hun</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn dod yn sensitif i emosiynau eraill; maent yn dod yn hunanddisgybledig ac yn derbyn gwahaniaethau o ran hil, rhyw, gallu, oedran a chrefydd/diwylliant.</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 12, 23, 29, 31</p>
<p><b>1.4 I ba raddau y mae'r plant yn mwynhau eu chwarae, eu dysgu a'u</b></p>	<p>Dylai'r arolygwyr werthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant yn derbyn cymorth i gymryd rhan mewn chwarae rhydd maen</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae mwyafrif y plant yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, ac yn cynnal eu diddordeb mewn tasgau annibynnol</li> <li>• Mae'r plant yn gallu archwilio eu hamgylchedd mewn modd rhydd a diogel</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 12, 23, 29, 31</p>

<p><b>hadloniant?</b></p>	<p>nhw'n ei ddewis a'i arwain</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a yw'r plant yn cael ymdeimlad o gyflawniad yn yr hyn y maent yn ei wneud</li> <li>• a yw'r plant yn mwynhau chwarae a gweithgareddau adloniadol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bron pob plentyn yn creu lleoedd y gallant chwarae ynddynt</li> <li>• Mae gan bron pob plentyn fynediad at amrywiaeth eang o adnoddau chwarae</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn cael cyfle i chwarae ac i ryngweithio â'r amgylchedd naturiol</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn cael cyfnodau estynedig o chwarae di-dor a gychwynnir gan blant, yn ogystal â chyfleoedd i gynnwys oedolion yn ei chwarae</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn gallu dylanwadu ar y gweithgareddau maent yn ymgymryd â nhw.</li> </ul>	
<p><b>1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu ac yn dod yn annibynnol?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae'r plant yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu hyder ac annibyniaeth</li> <li>• cael eu hysgogi ac yn gallu dilyn diddordebau personol</li> <li>• dangos nodweddion ymddygiad sy'n cyfrannu at y broses o adeiladu eu gwydnwch.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae bron pob plentyn yn archwilio ei werthoedd ei hun</li> <li>• Mae bron pob plentyn yn cael annibyniaeth i chwarae heb ymyrraeth gan oedolion</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn datblygu'n dda, yn hyderus i brofi pethau newydd, yn cymryd risgiau, ac yn teimlo balchder yn eu cyflawniadau</li> <li>• Mae mwyafrif y plant yn ymdopi'n dda gyda phrofiadau heriol.</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 12, 23, 29</p>

THEMA	YR HYN SY'N CAEL EI WERTHUSO	ENGHREIFFTIAU O'R HYN A OLYGIR GAN "DA"	ERTHYGLAU CCUHP
<b>2. GOFAL A DATBLYGIAD</b>	Bydd arolygwyr yn ystyried lefel cymwysterau a phrofiad ymarferwyr pan fyddant yn gwneud gwerthusiadau.	Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n rhoi enghreifftiau o'r effaith gadarnhaol mae darparwyr/ymarferwyr yn gallu ei chael ar ganlyniadau da ar gyfer plant. Mae darparwyr/ymarferwyr chwarae mynediad agored yn cynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi i weithio'n uniongyrchol gyda phlant er mwyn cefnogi a hwyluso'r broses chwarae yn unol ag egwyddorion gwaith chwarae.	
<b>2.1 Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?</b>	Bydd arolygwyr yn gwneud dyfarniad ynglŷn â pha mor dda mae polisiâu a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant yn cael eu gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• polisi amddiffyn plant</li> <li>• iechyd a diogelwch, gan gynnwys hylendid bwyd a'r ddarpariaeth ar gyfer rheoli heintiau</li> <li>• asesiadau risg-mantais ar gyfer chwarae'r plant</li> <li>• diogelwch tân</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn deall sut mae asesiadau risg-mantais yn cael eu defnyddio mewn gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu'r polisiâu a'r gweithdrefnau ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir</li> <li>• Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â phlant mewn modd cadarnhaol, ac yn siarad â nhw, pan fydd plant yn rhoi ciw iddynt, am faterion ynglŷn â diogelwch, bwlio, iechyd a chydberthnasau</li> <li>• Mae ymarferwyr yn defnyddio arferion adfyfyriol i ategu eu dealltwriaeth o ymddygiad</li> </ul>	Erthyglau 3, 6, 8, 14, 16, 19-24, 28-31, 33, 34, 36, 39



	<ul style="list-style-type: none"> <li>• hyrwyddo ffyrdd iach o fyw</li> <li>• gweinyddu meddyginiaeth yn ddiogel</li> <li>• cefnogi plant sydd â chyflyrau meddygol</li> <li>• gweinyddu cymorth cyntaf</li> <li>• diogelwch yn ystod diwrnodau allan ac ymweliadau</li> <li>• diogelwch ar y we</li> <li>• bwlio</li> <li>• rheoli ymddygiad plant, gan gynnwys ymyrryd ac yn rhwystro plant yn gorfforol.</li> </ul> <p><b>Amddiffyn plant</b></p> <p>Wrth ystyried pa mor effeithiol yw gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant, dylai arolygwyr werthuso a yw'r risgiau i blant yn cael eu nodi; a yw arwyddion a symptomau camdriniaeth yn cael eu nodi a'u deall; ac a yw polisi amddiffyn plant y gwasanaeth yn cael ei weithredu'n gywir.</p>	<p>plant, ac i ddatblygu strategaethau i'w reoli</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ymarferwyr yn defnyddio gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer gofynion meddygol plant. Gall hyn gynnwys gweinyddu meddyginiaeth neu weithio gyda'r rhieni er mwyn sicrhau bod anghenion meddygol neu ofal personol yn cael eu diwallu</li> <li>• Mae ymarferwyr yn deall anghenion unigol y plant, ac yn cefnogi'r broses o'u cynnwys yn y lleoliad.</li> </ul>	
--	---	--	--

<b>2.2 Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?</b>	<p>Dylai arolygwyr ystyried a yw ymarferwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymgysylltu â grwpiau cymunedol perthnasol ac ag unigolion er mwyn hyrwyddo a datblygu'r gwasanaeth</li> <li>• modelu ymddygiad sy'n briodol i'r cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol maent yn gweithio ynddo</li> <li>• gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y lleoliad</li> <li>• defnyddio dull cyson ar gyfer ymddygiad plant,</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan ddarparwyr/ymarferwyr ddealltwriaeth o anghenion y gymuned – gall hyn gael ei llywio gan brofiad, archwiliadau o'r gymuned, neu drafodaethau â rhieni, plant a gweithwyr proffesiynol eraill</li> <li>• Mae ymarferwyr yn dangos eu bod yn datblygu perthynas gilyddol barchus â phlant, rhieni a'i gilydd</li> <li>• Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth o'r hyn a ystyrir yn ymddygiad priodol yn yr amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol y maent yn gweithio ynddo</li> <li>• Mae ymarferwyr yn defnyddio arferion adfyfyriol i ategu eu dealltwriaeth o ymddygiad plant, ac i ddatblygu strategaethau i'w reoli</li> <li>• Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gyson ar draws y tîm o staff o derfynau a</li> </ul>	Erthyglau 3, 6, 8, 14, 16, 19-24, 28-31, 33, 34, 36, 39

	<p>gan roi ystyriaeth i'r plant unigol, fel nad oes unrhyw ddryswch ym meddwl y plentyn ynglŷn â'r hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gosod terfynau realistig ar y cyd â'r plant</li> <li>• annog y plant hŷn i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain.</li> </ul>	<p>strategaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd y gallant eu cael yn heriol Mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant rheoli ymddygiad ar gyfer y grŵp oedran maent yn gofalu amdano, ac yn defnyddio strategaethau y cytunwyd arnynt i reoli ymddygiad digroeso. Mae ymarferwyr yn herio ac yn ymateb yn briodol i fwlio, gwahaniaethu rhwng pobl, hiliaeth, a chreu ystrydebau ar sail rhyw</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ymarferwyr yn gwrando ar safbwyntiau a barn plant a'u parchu, ac yn hyrwyddo/annog cyfranogiad. Mae ymarferwyr yn ymddwyn fel canolwyr a/neu hwyluswyr, ac yn gallu ymyrryd mewn modd priodol yn ystod dadleuon er mwyn atal niwed ac osgoi tarfu ar chwarae'r plant yn ddiangen. Maent hefyd yn gosod rheolau sylfaenol mewn partneriaeth â phlant hŷn.</li> </ul>	
<b>2.3 Pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn</b>	Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae darparwyr/ymarferwyr yn:	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ymarferwyr yn dewis dull priodol o ymyrryd sy'n caniatáu i'r plant estyn eu chwarae eu hunain</li> </ul>	Erthyglau 3, 6, 8, 14, 16, 19-24, 28-31, 33, 34,

<p><b>hyrwyddo datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn trin pob plentyn ag urddas a pharch</li> <li>• hyrwyddo datblygiad y plant trwy hwyluso chwarae</li> <li>• sicrhau bod plant yn gallu pennu a rheoli cynnwys eu chwarae drwy ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain</li> <li>• cynllunio ar gyfer diwallu a deall anghenion yr holl blant sy'n mynychu'r gwasanaeth</li> <li>• sicrhau bod gweithdrefnau ar waith er mwyn diwallu anghenion iechyd, gofal neu feddygol penodol y plant.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn hyrwyddo hawliau plant yn dda, ac yn deall eu cyfrifoldebau o dan CCUHP</li> <li>• Mae ymarferwyr yn ymwybodol o'r lefel o gymorth sydd ei hangen er mwyn galluogi plant i reoli cynnwys a nod eu chwarae</li> <li>• Mae gweithdrefnau'n ystyried ac yn darparu ar gyfer gofynion meddygol plant. Gall hyn gynnwys gweinyddu meddyginiaeth neu weithio gyda rhieni er mwyn sicrhau bod anghenion meddygol neu ofal personol yn cael eu diwallu</li> <li>• Mae ymarferwyr yn ystyried anghenion unigol y plant ac yn cefnogi'r broses o'u cynnwys yn y gwasanaeth.</li> </ul>	<p>36, 39</p>
---	--	---	---------------

THEMA	YR HYN SY'N CAEL EI WERTHUSO	ENGHREIFFTIAU O'R HYN A OLYGIR GAN "DA"	ERTHYGL CCUHP
<b>3. AMGYLCHEDD</b>	<p>Mae'r amgylchedd yn cynnwys manau chwarae o dan do ac yn yr awyr agored, neu unrhyw fan cofrestredig arall. Bydd arolygwyr yn ystyried y math o wasanaeth a gynigir pan fyddant yn gwerthuso'r amgylchedd, ac yn ystyried ansawdd ac addasrwydd yr adnoddau a'r offer chwarae.</p>	<p>Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n rhoi enghreifftiau o sut mae arweinyddiaeth dda'n effeithio ar ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant. Mae arweinwyr yn cynnwys personau cofrestredig, unigolion cyfrifol, y person â gofal ac ati.</p>	
<b>3.1 Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?</b>	<p>Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithredu dull o reoli risg sy'n seiliedig ar asesiadau risg-mantais. Dylai pob aelod o staff wybod am y dull hwn a'i ddeall</li> <li>• sicrhau bod unrhyw risgiau diangen i blant</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn deall sut i ddefnyddio asesiadau risg-mantais, a'r rhesymwaith dros wneud hynny</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn defnyddio cofnodion damweiniau a digwyddiadau i ategu arferion adfyfyrion, ac i lywio sut mae risgiau'n cael eu rheoli</li> <li>• Mae darparwyr/ymarferwyr yn defnyddio eu gweithdrefnau rheoli risg er mwyn sicrhau bod peryglon diangen yn y lleoliad yn cael eu nodi</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 33, 35</p>

	<p>wedi cael eu nodi, a chyhyd ag y bo modd, eu gwaredu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod cydbwysedd rhwng yr angen i hyrwyddo iechyd plant a'u hamddiffyn rhag niwed, a'r angen i gefnogi plant wrth iddynt gymryd risgiau.</li> </ul>	<p>a'u rheoli</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod gwybodaeth glir ar gael i bawb ynglŷn â sut yr ymdrinnir ag argyfyngau yn y gwasanaeth chwarae mynediad agored.</li> </ul>	
<p><b>3.2 Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu amgylchedd o ansawdd ar gyfer chwarae</li> <li>• sicrhau bod digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant</li> <li>• sicrhau bod trefn a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, a'i fod yn cael ei ystyried o safbwynt plentyn</li> <li>• sicrhau bod cyfleusterau addas ar gyfer staff a sgysiau cyfrinachol</li> <li>• sicrhau bod mannau chwarae/adloniant ar gyfer pob plentyn yn cynnig</li> </ul>	<p>Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Plant eraill, o oedrannau a galluoedd gwahanol, gyda'r dewis rhwng chwarae ar eu pennau eu hunain neu gyda phlant eraill, er mwyn trafod, cydweithredu, ffraeo, a datrys gwrthdrawiadau.</li> <li>➤ Y byd naturiol – y tywydd, coed, planhigion, pryfed, anifeiliaid a llaid.</li> <li>➤ Darnau rhydd – deunyddiau naturiol a'r rhai o wneuthuriad dyn y gellir eu trin, eu symud, eu haddasu, eu hadeiladu a'u dymchwel.</li> <li>➤ Y pedair elfen – daear, aer, tân a dŵr.</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 33, 35</p>

	<p>heriau a risgiau addas, a chyfleoedd i arbrofi.</p>	<p>➤ Her ac ansicrwydd – cyfleoedd graddedig ar gyfer cymryd risgiau, ar lefel gorfforol ac ar lefel emosiynol.</p> <p>Herio hunaniaeth – chwarae rôl a gwisgo i fyny.</p> <p>Symudedd – rhedeg, neidio, dringo, cydbwyso, rholio, siglo,</p> <p>llithro a throelli.</p> <p>Chwarae'n arw ac yn cwmpo – chwarae ymladd.</p> <p>Y synhwyrâu – sŵn, blas, teimlad, arogl a golwg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ymarferwyr yn gwybod ac yn deall y trefniadau ar gyfer egwyliau staff a sgysiau cyfrinachol.</li> </ul>	
<p><b>3.3 Pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr</b></p>	<p>Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu mynediad ar gyfer plant at</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr yn deall y gweithdrefnau ar gyfer rheoli adnoddau</li> <li>• Mae darparwyr yn darparu amrywiaeth eang o</li> </ul>	<p>Erthyglau 2, 33, 35</p>

<p><b>adnoddau ac offer?</b></p>	<p>ddeunyddiau chwarae sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu adnoddau o ddyluniad a chyflwr addas, sydd wedi eu cynnal yn dda a, lle bo'n berthnasol, yn cydymffurfio â'r safonau diogelwch perthnasol</li> <li>• hyrwyddo'r defnydd o amrywiaeth eang o ddeunyddiau cynaliadwy/ailgylchadwy</li> <li>• defnyddio gwerthusiadau sydd bob amser yn ystyried oedran, cam datblygu, anghenion dysgu ychwanegol a man cychwyn y plentyn, yn ogystal â'r math o leoliad y mae'n ei fynychu.</li> </ul>	<p>ddarnau rhydd ac adnoddau chwarae</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ymarferwyr yn deall y gweithdrefnau rheoli risg sy'n berthnasol i adnoddau penodol.</li> </ul>	
----------------------------------	--	--	--



--	--	--	--

THEMA	YR HYN SY'N CAEL EI WERTHUSO	ENGHREIFFTIAU O'R HYN A OLYGIR GAN "DA"	ERTHYGL CCUHP
<b>4. ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH</b>	Bydd arolygwyr yn ystyried math a natur y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynorthwyo pob aelod o staff i gymryd rhan yn ei ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys cymryd rhan mewn profiadau dysgu ar gyfer yr holl wasanaeth.	Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond mae'n rhoi enghreifftiau o sut mae arweinyddiaeth dda'n effeithio ar ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant. Mae arweinwyr yn cynnwys gwarchodwyr plant, personau cofrestredig, unigolion cyfrifol, y person â gofal ac ati.	
<b>4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?</b>	Dylai arolygwyr werthuso a yw'r darparwyr/arweinwyr yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cydymffurfio â holl reoliadau Llywodraeth Cymru ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</li> <li>• hyrwyddo a chefnogi arferion adfyfyriol o fewn y tîm o staff er mwyn gwella perfformiad</li> <li>• hyrwyddo arferion gwaith chwarae yn unol ag egwyddorion gwaith chwarae</li> <li>• monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y lleoliad</li> <li>• meddu ar ddatganiad o ddiben clir sy'n rhoi</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn gweithredu arferion adfyfyriol yn eu gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau y neilltuir amser ar gyfer arferion adfyfyriol trwy gyfarfodydd staff, sesiynau adrodd yn ôl, goruchwyliaeth un i un, hyfforddiant staff, a mentora</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod staff yn deall yr egwyddorion gwaith chwarae, ac yn gweithredu yn unol â nhw</li> <li>• Defnyddir y datganiad o ddiben er mwyn hyrwyddo'r lleoliad i rieni, plant a'r gymuned</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn gwybod ac yn deall y cynnydd mae'r gwasanaeth yn ei wneud</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth y maent yn ei rhannu â phobl eraill mewn modd effeithiol</li> </ul>	Erthyglau 1-3, 9, 15, 18, 26, 42

	<p>disgrifiad cywir o'r gwasanaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyfathrebu natur y gwasanaeth yn effeithiol i rieni ac i'r gymdeithas ehangach</li> <li>• pennu amcanion a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant, ac yn cael eu deall a'u gweithredu gan bob ymarferydd, ac yn cael eu gwneud ar gael i rieni</li> <li>• sicrhau bod y person(au) cofrestredig/unigolyn cyfrifol yn cael digon o wybodaeth am gynnydd y gwasanaeth</li> <li>• creu amgylchedd cadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi</li> <li>• cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol sy'n rhoi disgrifiad cywir o'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei gynnig</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol, ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rheolaidd</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod polisïau effeithiol ar waith, a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n ymarferol</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn cyfathrebu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliannau, ac yn herio ymarferwyr mewn modd cadarnhaol yn effeithiol</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn adeiladu timau'n effeithiol ac yn herio perfformiad gwael mewn modd cadarn</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod cydberthnasau â rhanddeiliaid yn gadarnhaol, ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at y teimlad o gymuned</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr ddealltwriaeth diogel o'r arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant y maent yn gofalu amdanynt, ac yn hyrwyddo'r arferion hyn yn effeithiol</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr ddealltwriaeth ddiogel o'u cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg, a fframwaith strategol Llywodraeth</li> </ul>	
--	--	--	--

	<p>dda</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch</li> <li>• pennu amcanion a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant, ac yn cael eu deall a'u gweithredu gan bob ymarferydd, ac yn cael eu gwneud ar gael i rieni</li> <li>• monitro a gwerthuso canlyniadau ar gyfer plant</li> <li>• sicrhau bod y person(au) cofrestredig/unigolyn cyfrifol yn cael digon o wybodaeth am gynnydd y gwasanaeth.</li> </ul>	<p>Cymru "Mwy na Geiriau". Maent yn gallu dangos bod y "cynnig gweithredol" yn cael ei gweithredu'n dda.</p>	
<p><b>4.2 Pa mor effeithiol yw'r hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr ystyried a yw proses hunanwerthuso'r gwasanaeth yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos cysylltiad clir rhwng arferion adfyfyriol, a chynnal a gwella ansawdd y gwasanaeth</li> <li>• cynnwys pob ymarferydd yn y broses o asesu canlyniadau a'i berfformiad ei hun, megis adfyfyrio ar yr hyn y mae'n ei wneud bob dydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae proses ar waith ar gyfer casglu a chofnodi adborth gan blant, rheini ac asiantaethau allanol. Mae'r adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer y lleoliad</li> <li>• Mae arweinwyr yn manteisio ar y defnydd o fframweithiau hunanasesu penodol</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda, ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o hunanwerthusiad parhaus, sydd wedi'i ymgorffori yn yr arferion bob dydd</li> </ul>	<p>Erthyglau 1-3, 9, 15, 18, 26, 42</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried safbwyntiau ymarferwyr, rhieni/gofalwyr, plant, y pwyllgor rheoli, a phartneriaid eraill sy'n berthnasol i'r gwasanaeth, a bod adroddiad yn cael ei baratoi a'i rannu â chyfranogwyr</li> <li>• defnyddio cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, pan fydd hynny'n briodol</li> <li>• rhoi blaenoriaeth i faterion maent am eu gwella</li> <li>• ystyried a yw pryderon/cwynion wedi derbyn y sylw priodol</li> <li>• cyfrannu at gynlluniau ar gyfer cynnal a gwella ansawdd y lleoliad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cryfderau a meysydd i'w gwella'n cael eu nodi, a chymerir camau er mwyn cynnal a gwella arferion, ac i weithredu newidiadau</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr/ymarferwyr yn croesawu syniadau newydd; maent yn fodlon rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol o weithio a rhannu eu gwybodaeth ag eraill</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn adfyfrio ac yn ceisio adborth ynglŷn â'u harfer eu hunain, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon er budd y gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod safbwyntiau'r plant, eu rhieni/gofalwyr, staff, a phartneriaid eraill sydd â diddordeb yn cael eu casglu mewn modd effeithiol. Ystyrir bod y safbwyntiau hyn yn rhan o'r broses hunanwerthuso barhaus</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod yr adolygiad ansawdd gofal blynyddol yn dangos yn glir pwy sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad, unrhyw broblemau a leisiwyd, sut y gwneir gwelliannau, a sut y bydd hyn o fudd i'r plant. Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio neu argymhellion arfer da a wnaed yn ystod arolygiad diwethaf AGGCC nad ydynt wedi cael eu datrys, ac mae'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan gyrff proffesiynol eraill</li> </ul>	
--	--	---	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y gwasanaeth yn dda, er mwyn gwneud cynnydd yn unol â blaenoriaethau'r gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod camau prydlon yn cael eu cymryd ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gwynion a wnaed am y gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod plant yn deall y broses ar gyfer lleisio pryder/gwneud cwyn, ac yn cael eu galluogi i wneud hynny mewn amgylchedd diogel.</li> </ul>	
4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?	<p>Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dilyn prosesau recriwtio sy'n ddiogel, yn gadarn ac yn amserol</li> <li>• diffinio rolau a chyfrifoldebau</li> <li>• gweithredu system effeithiol ar gyfer rhoi cymorth i ymarferwyr</li> <li>• cynorthwyo ymarferwyr i ddeall egwyddorion gwaith chwarae, ac i weithredu yn unol â nhw</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod diogelu plant yn ganolog i'r broses o recriwtio ymarferwyr, ac mae ganddynt systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau o addasrwydd yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod y broses recriwtio'n sicrhau bod y bobl fwyaf priodol yn cael eu penodi ar gyfer eu rolau</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod y gwaith o recriwtio ymarferwyr yn cael ei reoli mewn modd amserol a da, er mwyn diwallu anghenion yr holl grŵp oedran, a bod gan bob ymarferydd rolau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n glir</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn cynnal gweithdrefn ymsefydlu effeithiol ar gyfer pob gwirfoddolwr ac ymarferydd</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr ddisgwyliadau</li> </ul>	Erthyglau 1-3, 9, 15, 18, 26, 42

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod digon o ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol ar gyfer yr amrywiaeth o blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth</li> <li>• datblygu cynlluniau wrth gefn i gyflenwi pan fydd staff yn absennol o'r plant</li> <li>• sicrhau bod ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau ynglŷn ag amcanion y gwasanaeth</li> <li>• sicrhau canlyniadau priodol ar gyfer plant yn gyffredinol</li> <li>• cytuno ar ddisgwyliadau realistig ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer ymarferwyr, ac yn eu gwireddu.</li> </ul>	<p>uchel ar eu cyfer eu hunain ac ar gyfer pobl eraill, maent yn gosod targedau realistig, maent yn ddelfrydau ymddwyn da, ac maent yn hyrwyddo ymarferwyr i ragori</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith er mwyn ymdrin ag absenoldeb ymarferwyr (wedi'i gynllunio ac yn annisgwyl), sy'n sicrhau nad yw ansawdd y chwarae mae'r plant yn ei dderbyn yn cael ei effeithio</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n cael ei fodelu gan arweinwyr, ac yn gwerthfawrogi profiad a chymwysterau staff.</li> </ul>	
<p><b>4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?</b></p>	<p>Dylai arolygwyr ystyried a yw'r gwasanaeth yn glir ynglŷn â'i rôl a'i gyfrifoldeb am sefydlu ymddiriedaeth a sianeli cyfathrebu clir rhwng partneriaid.</p> <p>Dylai arolygwyr gwerthuso pa mor dda mae darparwyr/arweinwyr yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hysbysu rhieni am les eu plentyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn darparu gwybodaeth berthnasol ar gyfer rhieni er mwyn iddynt wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u plentyn yn defnyddio'r gwasanaeth</li> <li>• Mae darparwyr/arweinwyr yn ystyried ac yn ymateb i adborth, pryderon a chwynion mewn modd amserol</li> <li>• Mae gan ddarparwyr/arweinwyr gysylltiadau da â'r gymuned, a pherthynas gadarnhaol â phartneriaid, er mwyn gwella gwaith y gwasanaeth ac i hyrwyddo canlyniadau da ar</li> </ul>	<p>Erthyglau 1-3, 9, 15, 18, 26, 42</p>

	<ul style="list-style-type: none"><li>• darparu gwybodaeth ar gyfer rhieni am bolisiâu a gweithdrefnau'r gwasanaeth</li><li>• datblygu cysylltiadau â phartneriaid yn y gymuned er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaeth.</li></ul>	gyfer plant.	
--	---	--------------	--



## Rhestr gyfeirio o ddogfennau ategol allweddol

### Gofal dydd, gwarchodwyr plant ac elfennau o chwarae

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010  
<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents>
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010  
<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/2574/made>
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir  
<http://fis.ceredigion.gov.uk/wp-content/uploads/2012/11/120309regchildcarecy.pdf>
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)  
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/uncrc/?skip=1&lang=cy>
- Goruchwylio ac Arfarnu Da – Arweiniad i oruchwylio ac arfarnu  
<http://www.cgymru.org.uk/goruchwylio-ac-arfarnu-da/?force=2&bc=1753:2388|#sthash.la6JYoKN.dpufhttp://www.cgymru.org.uk/goruchwylio-ac-arfarnu-da/?force=2&bc=1753:2388>
- Arferion datblygiadol priodol ar gyfer plant 0-3 mlwydd oed  
<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A14165181/document/versions/published>
- Canllawiau Pontio Dechrau'n Deg <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy>
- Gofal Plant Dechrau'n Deg o Ansawdd Da <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy>
- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen – (Diwygiedig 2015)  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150803-fp-framework-cy.pdf>
- Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen  
<http://gov.wales/docs/dcells/publications/151008-fp-profile-cy.pdf>
- Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae (SkillsActive, 2005)  
<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/egwyddoriongwaithchwarae>
- Pwysigrwydd Chwarae a Mathau o Chwarae  
<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/taflennigwybodaeth>
- Children's Play and Leisure – Promoting a Balanced Approach (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, 2012)  
<http://www.hse.gov.uk/entertainment/childrens-play-july-2012.pdf>
- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan  
[http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/328/new\\_all\\_wales\\_child\\_protection\\_procedures.pdf](http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/328/new_all_wales_child_protection_procedures.pdf)
- Diogelu –  
<http://gov.wales/topics/health/socialcare/safeguarding/?skip=1&lang=cy>

- Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004  
<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/circular/nafwc1207/?lang=cy>
- HWB Diogelwch Ar-lein Llywodraeth Cymru  
<http://hwb.wales.gov.uk/pages/eSafety-Index>
- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru  
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf>
- Mwy na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol  
<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>
- Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy  
<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/scheme/?lang=cy>
- Cynllun Gwên Llywodraeth Cymru  
<http://gov.wales/topics/health/cmo/professionals/dental/smile/?lang=cy>
- Newid am Oes Llywodraeth Cymru <http://change4lifewales.org.uk/?lang=cy>
- Canllawiau Bwyd ac Iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant  
<http://gov.wales/docs/phhs/publications/foodandhealth/090414guidelinescy.pdf>
- Iechyd Cyhoeddus Cymru – Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/document/251196>
- Offeryn Archwilio Rheoli Heintiau  
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Infection%20Prevention%20and%20Control%20for%20Childcare%20Settings%20Final%202014.pdf>

## Atodiad B (parhad)

### Chwarae Mynediad Agored

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/contents>
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2010/2574/made>
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir  
<http://fis.ceredigion.gov.uk/wp-content/uploads/2012/11/120309regchildcarecy.pdf>
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)  
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/uncrc/?skip=&lang=cy>

- Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar (Llywodraeth Cymru, 2014)
- Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae (SkillsActive, 2005)  
<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/egwyddoriongwaithchwarae>
- Children's Play and Leisure – Promoting a Balanced Approach (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, 2012)  
<http://www.hse.gov.uk/entertainment/childrens-play-july-2012.pdf>
- Teclyn Cymarebau AGGCC
- Goruchwyllo ac Arfarnu Da – Arweiniad i oruchwyllo ac arfarnu  
<http://www.cgcmru.org.uk/goruchwyllo-ac-arfarnu-da/?force=&bc=|#sthash.la6JYoKN.dpufhttp://www.cgcmru.org.uk/goruchwyllo-ac-arfarnu-da/?force=&bc>
- Pwysigrwydd Chwarae a Mathau o Chwarae  
<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/taflennigwybodaeth>
- Yr Hawl Cyntaf, Chwarae Cymru  
<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/hawlcyntaf>
- Prosesau Dymunol, Yr Hawl Cyntaf, Chwarae Cymru  
<http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/Shop/extracts%20desirable%20processes.pdf>
- Pwysigrwydd Chwarae a Mathau o Chwarae  
<http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/taflennigwybodaeth>
- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan  
[http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/328/new\\_all\\_wales\\_child\\_protection\\_procedures.pdf](http://www.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/328/new_all_wales_child_protection_procedures.pdf)
- Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004  
<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/circular/nafwc1207/?skip=1&lang=cy>
- HWB Diogelwch Ar-lein Llywodraeth Cymru  
<http://hwb.wales.gov.uk/pages/eSafety-Index>
- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru  
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf>
- Newid am Oes Llywodraeth Cymru <http://change4lifewales.org.uk/?lang=cy>
- Mwy na Geiriau a'r Cynnig Gweithredol  
<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>



## Atodiad C: Tabled adroddiad arolygu



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  
Care and Social Services Inspectorate Wales

**BSFERSSAS**

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar

Xxxxxxx

Xxxxxxx

xxxxxxx

**Dyddiad Cyhoeddi – xx/xx/xx**



**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2016** Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk) <<mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk>>. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## **ENGHRAIFFT 1: Gwasanaeth gofal dydd sesiynol**

### **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

*Crynodeb byr o leoliad y gwasanaeth, pwy sy'n ei redeg, y mathau o ofal a ddarperir, ystod oedrannau ac ati.*

*Cylch chwarae wedi'i leoli yn Neuadd Pentref y Tymbl yw Example Tots. Caiff ei redeg gan gymdeithas wirfoddol leol. Mae ar agor tri bore yr wythnos o 8am tan 12.30pm. Mae'r cylch chwarae yn cynnig 30 o leoedd i blant 2-4 oed, sy'n cynnwys 15 lle i blant a ariennir gan Ddechrau'n Deg.*

### **Crynodeb o'n canfyddiadau**

*Hanes sy'n cynnwys:*

- 1) asesiad cyffredinol;*
- 2) y daith wella;*
- 3) gofynion ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.*

*Canfuwyd gennym fod plant sy'n mynychu Example Tots yn hapus ac yn edrych ymlaen at fynychu. Maent yn arbennig o hoff o ddefnyddio'r man chwarae newydd yn yr awyr agored. Mae'r plant yn amlwg yn elwa ar fynychu ac roedd tystiolaeth bod plant yn gwneud cynnydd o ganlyniad i'r gweithgareddau a gynigir. Mae'r staff yn garedig ac yn ymateb yn gyflym i anghenion y plant. Fe'n hysbyswyd gan rieni eu bod yn teimlo bod eu plant yn ddiogel ac yn derbyn gofal da.*

*Mae'r cylch chwarae wedi gwneud nifer o welliannau ers yr arolygiad diwethaf, gan brynu offer a theganau newydd ac annog mwy o "chwarae rhydd".*

*Nodwyd gennym fod rhai plant yn cael trafferth yn dod o hyd i'r toiledau, ac argymhellwyd gennym y dylid defnyddio arwyddion sy'n ystyriol o blant. Nodwyd gennym hefyd nad oedd unrhyw gofnod o drefnau cysgu'r plant ar ffeil, ac argymhellwyd y dylid gwneud hyn fel y gallai plant sydd angen gorffwys yng nghanol y bore gael seibiant.*

### **Ar gyfer pob thema**

- 1. Lles**
- 2. Gofal a Datblygiad**
- 3. Arweinyddiaeth a Rheolaeth**
- 4. Amgylchedd**

Rydym yn rhoi crynodeb cyffredinol byr ar y brig, gan gynnwys dyfarniad naratif ac yna ein canfyddiadau/tystiolaeth/dyfarniad unigol ar gyfer yr elfennau isod.

### **Crynodeb (e.e. ar gyfer yr amgylchedd)**

*Mae Example Tots yn cynnig amgylchedd da a difyr lle cedwir plant yn ddiogel. Yn benodol, mae plant yn mwynhau defnyddio'r offer awyr agored newydd, ac mae'r ardal â lloches yn golygu y gallant chwarae yn yr awyr agored hyd yn oed os yw'n glawio.*

### **Ein canfyddiadau**

*Mae'r brif neuadd yn Example Tots yn olau ac awyrog ac yn cynnig digon o le i blant symud rhwng gweithgareddau. Gwelsom blant yn defnyddio'r gwahanol fyrddau gweithgareddau ac ati.*

## **5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn**

### **5. 1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol**

*Dim*

### **5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan yr arolygiad hwn**

*Dim*

### **5.3 Argymhellion ar gyfer gwella**

- 1) Dylid defnyddio arwyddion ystyriol o blant i helpu plant ddod o hyd i'r toiledau.*
- 2) Dylai arferion cysgu gael eu cofnodi yn ffeiliau'r plant bob amser.*

## **6. Sut y cynhaliwyd yr arolygiad hwn gennym**

*Pa fath o arolygiad, pryd ac am ba mor hir y gwnaethom ymweld â'r gwasanaeth, nifer y bobl y gwnaethom siarad â nhw, yr hyn a wnaethom, nifer yr arolygon a dderbyniwyd gennym, a'r cofnodion a adolygwyd (fel pwyntiau bwled).*

*Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd yn rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau.*

- Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth am bum awr; arsylwyd ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn yn Example Tots ar*

*wahanol adegau yn y bore gan ddefnyddio ein dull "SOFI" i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan y staff;*

- cawsom sgysiau â nifer o blant yn ystod y bore, tri rhiant, a dau aelod o staff. Cynhaliwyd dau gyfweiliad ffôn gyda rhieni gennym hefyd;*
- derbyniwyd pum holiadur gennym gan rieni a phedwar gan aelodau staff; ac*
- edrychwyd ar amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar y Datganiad o Ddiben, yr Adolygiad o Ansawdd Gofal, cofnodion hyfforddiant staff, a chofnodion pedwar o blant.*

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:  
[www.aggcc.org.uk](http://www.aggcc.org.uk)



## ENGHRAIFFT 2: Gwasanaeth gofal dydd llawn

### Disgrifiad o'r gwasanaeth

*Crynodeb byr o leoliad y gwasanaeth, pwy sy'n ei redeg, y mathau o ofal a ddarperir, ystod oedrannau ac ati.*

*Mae Meithrinfa Hapless wedi'i lleoli ar barc diwydiannol ym Medwas. Caiff ei rhedeg gan Mrs Jones, sy'n berchen ar y feithrinfa. Mae ar agor pum diwrnod yr wythnos, o 8am tan 6pm. Mae'r feithrinfa'n cynnig 60 o leoedd i blant 0-12 oed ac yn cynnig clwb brechwast, lleoedd meithrin yn ystod y dydd, a gweithgareddau ar ôl yr ysgol.*

### Crynodeb o'n canfyddiadau:

*Hanes sy'n cynnwys:*

- 1) asesiad cyffredinol;*
- 2) y daith wella; a*
- 3) gofynion ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.*

*Canfuwyd gennym fod plant sy'n mynychu Meithrinfa Hapless yn hapus yn gyffredinol ac yn edrych ymlaen at fynychu. Fodd bynnag, canfuwyd gennym hefyd fod plant yn cael eu gadael am gyfnodau hir o amser heb gefnogaeth ac anogaeth gan y staff. Gwelsom rai plant a oedd yn amlwg wedi diflasu a heb eu diddanu'n ddigonol. Arweiniodd hyn iddynt fod yn aflonydd. Fe'n hysbyswyd gan rieni eu bod yn teimlo bod eu plant yn ddiogel, ond roedd rhai'n teimlo bod y feithrinfa'n ddi-drefn ac yn "anhrefnus" ar adegau.*

*Prin oedd y dystiolaeth o welliant neu fuddsoddiad ers yr arolygiad diwethaf, er bod perchennog y feithrinfa wedi gwella archwiliadau diogelwch tân ac wedi sicrhau bod cofnodion ar gyfer recriwtio staff yn gyfredol.*

*Canfuwyd gennym nad oedd y feithrinfa'n cydymffurfio o ran rheoliadau'n ymwneud â:*

- Lefelau staffio: Nid oedd digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y plant.*
- Cymorth cyntaf: Nid yw'r feithrinfa'n sicrhau bod rhywun wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf ar ddyletswydd bob amser.*

*Argymhellwyd gennym hefyd fod dymuniadau deietegol y plant yn cael eu cofnodi.*

## Ar gyfer pob thema

1. Lles
2. Gofal a Datblygiad
3. Arweinyddiaeth a Rheolaeth
4. Amgylchedd

Rydym yn rhoi crynodeb cyffredinol byr ar y brig, gan gynnwys dyfarniad naratif ac yna ein canfyddiadau/tystiolaeth/dyfarniad unigol ar gyfer yr elfennau isod.

## Crynodeb

### Ein canfyddiadau

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfiad o arolygiadau blaenorol

*Cyflwynwyd dau hysbysiad o ddiffyg cydymffurfiad gennym yn yr arolygiadau blaenorol ac nid oeddent wedi eu datrys ar yr adeg yr oedd yr arolygiad hwn yn cael ei gynllunio.*

- *Diogelwch tân: Roeddem yn fodlon yn yr arolygiad hwn bod y feithrinfa'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ac roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal.*
- *Hyfforddiant cymorth cyntaf: Canfuwyd gennym yn yr arolygiad hwn bod perchennog y feithrinfa'n dal wedi methu â sicrhau bod gweithwyr wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf ar ddyletswydd trwy gydol y dydd. Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau o hyd.*

*Hysbyswyd y darparwr yn yr arolygiad diwethaf nad oedd y cartref yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran recriwtio staff. Mae'r perchennog wedi cymryd camau ac roedd holl dystlythyrau ac archwiliadau'r staff ar gael ar adeg ein hymweliad. Mae'r feithrinfa yn cydymffurfio o ran recriwtio staff erbyn hyn.*

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan yr arolygiad hwn

- *Lefelau staffio: Cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfiad gennym yn yr arolygiad hwn o ran lefelau staffio. Canfuwyd gennym nad oedd digon o aelodau staff ar ddyletswydd i sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwyllo'n briodol.*

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

- *Dylid gwneud dewisiadau deietegol y plant yn eglur yn eu ffeiliau.*

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

*Pa fath o arolygiad, pryd ac am ba mor hir y gwnaethom ni ymweld â'r gwasanaeth, nifer y bobl y gwnaethom siarad â nhw, yr hyn a wnaethom, nifer yr arolygon a dderbyniwyd gennym, a'r cofnodion a archwiliwyd (fel pwyntiau bwled).*

*Arolygiad pwyslais penodol oedd hwn a gynhaliwyd yn dilyn pryder gan riant am lefelau staffio yn y feithrinfa.*

- *Cynhaliodd dau arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth am saith awr.*
- *Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn ym Meithrinfa Hapless ar wahanol adegau yn ystod y diwrnod, gan ddefnyddio ein dull "SOFI" i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan y staff.*
- *Cawsom sgwrsiau â nifer o blant yn ystod y dydd, pedwar rhiant, a dau aelod o staff. Cynhaliwyd dau gyfweiliad ffôn gyda rhieni gennym hefyd. Cawsom sgwrs gyda'r cydgysylltydd Dechrau'n Deg hefyd.*
- *Derbyniwyd pum holiadur gennym gan rieni a phedwar gan aelodau staff.*
- *Gwnaethom edrych ar amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar y rota staffio, y ffeil gwynion, y Datganiad o Ddiben, yr Adolygiad o Ansawdd Gofal, cofnodion hyfforddiant a recriwtio staff, a chofnodion pedwar o blant.*

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.aggcc.org.uk](http://www.aggcc.org.uk)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

<b>Y math o ofal a ddarperir</b>	
<b>Person(au) Cofrestredig</b> <b>Unigolyn Cyfrifol</b>	
<b>Person â gofal</b>	
<b>Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd</b>	
<b>Ystod oedran y plant</b>	
<b>Oriau agor</b>	
<b>Prif iaith y gwasanaeth</b>	
<b>Dyddiad arolygiad blaenorol</b> <b>AGGCC</b>	
<b>Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn</b>	
<b>Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?</b>	
<b>Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?</b>	
<b>Gwybodaeth ychwanegol:</b>	





**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**  
**Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010**  
**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010**  
**Hysbysiad o Ddiffyg Cydymffurfio**

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r meysydd lle nad yw eich gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'n ofynnol i chi, yr unigolyn cofrestredig, gymryd camau i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau o fewn yr amserlenni a nodwyd.

**Mae cyflwyno'r hysbysiad hwn yn fater difrifol. Os na lwyddir i gydymffurfio, bydd AGGCC yn gweithredu yn unol â'i pholisi gorfodi.**

Mae mwy o gyngor a gwybodaeth ar gael ar wefan AGGCC:

[www.aggcc.org.uk](http://www.aggcc.org.uk)

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2015. (mae angen diweddarau'r flwyddyn yn awtomatig bob blwyddyn)**

*Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National*

Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk) Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Atodiad D

Dyfyniad o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

<http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/part/2/crossheading/inspection>

Rhan 41 – Pwerau mynediad:

(1) Caiff unrhyw berson a awdurdodwyd at ddibenion yr is-adran hon gan Weinidogion Cymru ar unrhyw adeg resymol fynd i mewn i unrhyw fangre yng Nghymru lle y darperir gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd ar unrhyw adeg.

(2) Caiff unrhyw berson a awdurdodwyd at ddibenion yr is-adran hon gan Weinidogion Cymru ar unrhyw adeg resymol fynd i mewn i unrhyw fangre yng Nghymru os oes gan y person achos rhesymol dros gredu bod plentyn yn derbyn gofal yn unrhyw fangre yn groes i'r Rhan hon.

(3) Caniateir rhoi awdurdodiad o dan is-adran (1) neu (2)—

- (a) ar gyfer achlysur neu gyfnod penodol;
- (b) yn ddarostyngedig i amodau.

(4) Rhaid i berson sy'n arfer unrhyw bŵer a roddir gan yr adran hon neu adran 42, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos dogfen a ddilyswyd yn briodol sy'n dangos awdurdod y person hwnnw i wneud hynny.

Adran 42 – Pwerau adolygu:

(1) Caiff person sy'n mynd i mewn i fangre o dan adran 41 (yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodir o dan adran 41(3)(b))—

- (a) arolygu'r fangre;
- (b) arolygu, a chymryd copïau o'r canlynol—
  - (i) unrhyw gofnodion a gedwir gan y person sy'n darparu'r gwasanaeth gwarchod plant neu'r gofal dydd, a
  - (ii) unrhyw ddogfennau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch darparu'r gwasanaeth;



- (c) ymafael yn unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall neu beth arall a geir yno a'i symud oddi yno y mae gan y person a awdurdodwyd sail resymol dros gredu y gall fod yn dystiolaeth o fethiant i gydymffurfio ag unrhyw amod neu ofyniad a osodwyd gan neu o dan y Rhan hon;
- (d) cymryd mesuriadau neu dynnu lluniau neu wneud recordiadau;
- (e) arolygu unrhyw blant sy'n derbyn gofal yno, a'r trefniadau a wnaed er eu lles;
- (f) cyfweld yn breifat â'r person sy'n darparu'r gwasanaeth gwarchod plant neu'r gofal dydd;
- (g) cyfweld yn breifat ag unrhyw berson sy'n gofalu am blant, neu'n byw neu'n gweithio, yn y fangre sy'n cydsynio i gael ei gyfweld.

(2) Mae'r pŵer yn is-adran (1)(b) yn cynnwys—

- (a) pŵer i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal dogfennau neu gofnodion a gedwir yn y fangre neu sy'n atebol amdanynt i'w dangos, a
- (b) o ran cofnodion a gedwir drwy gyfrwng cyfrifiadur, pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r cofnodion gael eu dangos ar ffurf sy'n eu gwneud yn ddarllenadwy ac y gellir eu cymryd oddi yno.

(3) Nid yw'r pwerau ym mharagraffau (b) ac (c) yn is-adran (1) yn cynnwys pŵer—

- (a) i'w gwneud yn ofynnol i berson ddangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion y gellid cynnal hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol mewn cysylltiad â hwy mewn achos cyfreithiol, neu
- (b) i gymryd copiâu o ddogfennau neu gofnodion o'r fath neu i ymafael ynddynt a'u symud oddi yno.

(4) Mewn cysylltiad ag arolygu unrhyw ddogfennau o'r fath, caiff person a awdurdodwyd at ddibenion adran 41 (yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodir o dan adran 41(3)(b))—

- (a) cael mynediad i unrhyw gyfrifiadur a chyfarpar neu ddeunyddiau cysylltiedig ac arolygu a gwirio eu gweithrediad y mae'r person hwnnw'n ystyried sy'n cael eu defnyddio neu wedi cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r dogfennau, a
- (b) ei gwneud yn ofynnol bod person sy'n dod o fewn is-adran (5) yn rhoi iddo'r cyfryw gymorth rhesymol ag y bo angen amdano at y diben hwnnw.

(5) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—

- (a) os yw'n berson y mae'r cyfrifiadur yn cael ei ddefnyddio ganddo neu wedi cael ei ddefnyddio ganddo neu ar ei ran, neu

(b) os yw'n berson sydd â gofal y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu fel arall yn ymwneud â'u gweithredu.

(6) Caiff person sy'n mynd i mewn i fangre o dan adran 41 (yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodir o dan adran 41(3)(b)) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn rhoi iddo'r cyfryw gyfleusterau a chymorth ynglŷn â materion o fewn rheolaeth y person ag sy'n angenrheidiol i'w alluogi i arfer pwerau o dan adran 41 neu o dan yr adran hon.

(7) Mae unrhyw berson sydd heb esgus rhesymol—

(a) yn rhwystro person sy'n arfer unrhyw bŵer o dan adran 41 neu o dan yr adran hon, neu

(b) yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan yr adran hon,

yn euog o dramgwydd a bydd yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na Lefel 4 ar y raddfa safonol.